Arolygiad Goruchwylio Effeithiol

ar y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ar gyfer Cymru a Lloegr

Adroddiad ar:
Ardal Brawf De Cymru

2004

ISBN 1 84473 292 4

Home Office
BUILDING A SAFE, JUST AND TOLERANT SOCIETY

RHAGAIR

Mae Ardal Brawf De Cymru wedi bod trwy gyfnod ansefydlog ers sefydlu'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn 2001, yn gyntaf oherwydd y mae wedi gorfod delio â chymhlethdodau yn sgil uno'r tri gwasanaeth prawf blaenorol, ac yn fwy diweddar oherwydd y tarfu a achoswyd yn sgil ymadawiad ei Phrif Swyddog cyntaf yn ystod 2003 ac effaith hyn ar gynllunio strategol tymor hirach. Rydym yn falch bod Prif Swyddog newydd wedi cael ei benodi ychydig cyn yr arolygiad ym mis Mawrth 2004 ac rydym yn credu y bydd hyn yn cynyddu potensial yr ardal i symud ymlaen a gwneud gwelliannau yn yr ardaloedd ymarfer hynny lle bu'r perfformiad yn anfoddhaol.

Prif lwyddiant De Cymru yn ddiweddar fu gwella ei chanlyniadau ei hun mewn perthynas â rhai o'r targedau cenedlaethol allweddol ar gyfer ardaloedd prawf. Er hynny, mae'r arolygiad wedi dangos bod llawer o waith ar ôl i'w wneud yn yr ardal, er enghraifft gwella ansawdd asesiadau risg a chynlluniau goruchwylio, canolbwyntio mwy ar faterion dioddefwyr, a sicrhau bod pob ymyriad yn mynd i'r afael ag ymddygiad troseddol ac yn addas i risg o niwed y troseddwr a'r tebygolrwydd y bydd yn aildroseddu.

Oherwydd y diffygion a ddatgelwyd gan yr arolygiad, rydym yn bwriadu cynnal arolygiad dilynol yn gynnar yn 2005. Credwn y bydd hyn yn rhoi digon o amser i'r ardal i weithredu'r argymhellion a gynhwysir yn yr adroddiad hwn a chyrraedd y lefelau perfformiad angenrheidiol.

Andrew Bridges
Prif Swyddog Prawf EM

Mai 2004

DIOLCHIADAU

Hoffem fynegi ein diolch i Fwrdd Prawf De Cymru, ei reolwyr a'i staff am y cymorth sylweddol a gafwyd a'i gwnaeth yn bosibl cynnal yr arolygiad yn ddidrafferth. Heb eu cymorth hwy, yn enwedig wrth drefnu rhaglen gymhleth o gyfweliadau gyda rheolwyr achos, ni fuasai'n bosibl cwblhau'r gwaith yn llwyddiannus.

Roedd yr arolygiad yn dibynnu hefyd ar gyfraniad aseswyr ardal lleol oedd yn cynorthwyo gyda'r cyfweliadau gyda rheolwyr achos. Gwerthfawrogwyd eu cyfranogiad a'u hymrwymiad yn fawr.

Prif Arolygwyr Cynorthwyol EM:	*John Hutchings, Peter Ramell*
Arolygwyr EM:	*Karen Page, Di Askwith, Andy Smith, Kate White*
Swyddogion Arolygu:	*Mary Barnish, Roseanne Cameron, Peter Carter, Jackie McAvoy, Joy Neary*
Swyddog Gweinyddol Arolygu:	*Pippa Bennett, Janet Brown, Junior Rhone*
Aseswyr Ardal:	*Christine Ace, Aly Loring, Jed Walsh, Delyth Wanklyn*

CYNNWYS

		Page
	Geirfa	4
	Crynodeb ac argymhellion	5
	Taflen grynhoi sgoriau	8
	Trefniadau arolygu	9
	Dull sgorio	10
	Trosolwg o'r ardal	12
ADRAN A	ANSAWDD RHEOLI	14
ADRAN B	ANSAWDD ASESU	20
ADRAN C	ANSAWDD YMYRIADAU	23
ADRAN D	ANSAWDD CANLYNIADAU CYCHWYNNOL	27
	ELFEN THEMATIG: TRAIS TEULUOL Crynodeb o'r canfyddiadau dros dro ar gyfer De Cymru	30
	Swyddogaeth AEM Prawf	39

GEIRFA

ACE	System Asesu, Cofnodi Achosion a Gwerthuso
ACD	Adroddiad Cyn Dedfrydu
AD	Adnoddau dynol
AEM Prawf	Arolygiaeth Brawf ei Mawrhydi
CP	Cosb gymunedol
CPN	Nyrs seiciatrig gymunedol
CPO	Gorchymyn cosb gymunedol
CPRO	Gorchymyn cosb ac ailsefydlu cymunedol
CRAMS	System Gweinyddu a Rheoli Cofnodion Achos
DTTO	Gorchymyn Trin a Phrofi Cyffuriau
DV	Trais teuluol
ECP	Cosb gymunedol ddwysach
EEM	Model Rhagoriaeth Ewropeaidd
ESATRO	System Asesu Troseddwyr Electronig
ESI	Arolygiad Goruchwylio Effeithiol
ETE	Cyflogaeth, Hyfforddiant ac Addysg
ICCP	Rhaglen Newid a Rheolaeth Ddwys
IDAP	Rhaglen Integredig Cam-drin yn y Cartref
ISP	Cynllun goruchwylio cychwynnol
LSI-R	Rhestr Lefel Gwasanaeth- Diwygiedig
MAPPA	Trefniadau Amddiffyn Cyhoeddus Aml-Asiantaeth
MARAC	Cynhadledd Asesu Risg Aml-Asiantaeth
NPD	Cyfarwyddiaeth Brawf Genedlaethol
NPS	Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
NSPCC	Cymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant
NVQ	Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol
OGRS2	Graddfa Ailgollfarnau Grwpiau Troseddwyr
SATro	System Asesu Troseddwyr
SARA	Asesiad Risg o Ymosodiad gan Gymar
SMART	Penodol, Mesuradwy, Ymarferol, Realistig ac Amserol
SMT	Uwch Dîm Rheoli
SPM	Mesurau Perfformiad Wrth Gefn
SSR	Adroddiad dedfryd penodol

CRYNODEB AC ARGYMHELLION

Canfyddiadau allweddol

- **Ansawdd Rheoli:** Roedd y Prif Swyddog cyntaf wedi gadael beth amser cyn hynny yn ystod 2003 ac ar ôl dau benodiad dros dro roedd y Prif Swyddog newydd wedi cychwyn yn ei swydd ychydig o wythnosau'n unig cyn yr arolygiad. Roedd cynllun busnes trefnus yn amlinellu blaenoriaethau lleol a chenedlaethol eglur ac roedd data monitro perfformiad chwarterol cynhwysfawr ar gael, ond roedd angen canolbwyntio mwy ar ganlyniadau. Roedd angen rhoi mwy o sylw hefyd i sefydlu'r model rheoli achos yn yr ardal a gwella trefniadau ar gyfer gweithio gyda throseddwyr â risg uchel o niwed. Roedd yr ardal wedi derbyn adroddiad archwilio mewnol cadarnhaol mewn perthynas â'i systemau ariannol ac roedd tystiolaeth dda o'r defnydd o dechnegau rheoli prosiect i oruchwylio cynlluniau pwysig. Bu buddsoddiad sylweddol mewn hyfforddiant staff, gydag amcanion staff unigol yn cysylltu hefyd â'r cynllun busnes. Nid oedd strategaeth cynllunio gweithlu cyffredinol chwaith ac nid oedd y systemau i ddangos a oedd staff yn cael eu goruchwylio'n iawn wedi cael eu datblygu'n llawn. Roedd strategaeth partneriaethau ar waith ac roedd cysylltiadau gweithio da gydag asiantaethau perthnasol eraill mewn perthynas â goruchwylio troseddwyr risg uchel o niwed, ond roedd tystiolaeth o hyd o ddiffyg ffocws strategol yma a hefyd o angen am fwy o sylw i gysylltiadau gyda'r gymuned ehangach. Roedd trefniadau da yn bodoli i gyfathrebu gyda llysoedd ynadon yr oedd angen eu gosod ar waith yn awr yn Llys y Goron hefyd.
- **Ansawdd Asesu:** Ym mron pob un o'r achosion a arolygwyd nid oedd lefel risg o niwed y troseddwr wedi cael ei asesu'n rheolaidd ac yn yr un modd dim ond mewn lleiafrif o achosion y roedd y tebygolrwydd o aildroseddu wedi cael ei asesu'n ddigonol. Roedd llawer o gynllunio goruchwylio wedi methu â chwrdd â gofynion cynnwys ac amseru'r safonau cenedlaethol ac roedd ansawdd cyffredinol amcanion cynlluniau goruchwylio yn anfoddhaol. Roedd gwaith da wedi cael ei wneud i sicrhau bod troseddwyr yn deall gofynion eu gorchymyn neu eu trwydded, ond roedd dal angen sicrhau bod gwybodaeth oruchwylio wedi cael ei chofnodi'n eglur mewn nifer fwy o achosion.
- **Ansawdd Ymyriadau:** Roedd rheolwyr achos yn rheoli presenoldeb yn briodol ar draws yr holl ymyriadau gan weithredu lle'r oedd angen i sicrhau cydymffurfiad, ac roedd dyfarniadau ynghylch derbynioldeb unrhyw absenoldebau yn gywir yn y mwyafrif mawr o achosion. Ond roedd angen mwy o waith i sicrhau bod cyswllt digonol gyda'r holl droseddwyr, yn enwedig mewn perthynas â'u risg o niwed, a bod cynnydd mewn perthynas ag amcanion cynlluniau goruchwylio yn cael ei adolygu'n gyson. Roedd angen arbennig i roi mwy o sylw i faterion yn ymwneud â throseddwyr ac i sicrhau bod yr ymyriadau ym mhob achos yn herio'r troseddwr i gymryd cyfrifoldeb am eu gweithred a'i chanlyniadau. Nid oedd goruchwyliaeth rheolwyr ar droseddwyr risg uchel o niwed wedi ei chofnodi'n dda bob tro.

- **Ansawdd Canlyniadau Cychwynnol:** êr mai dim ond ychydig o droseddwyr oedd wedi ymddangos gerbron y llys eto ers dechrau'r gorchymyn neu'r drwydded a bod y mwyafrif yn dal i gydymffurfio â'r gofynion, ychydig o dystiolaeth oedd i ddangos eu bod yn newid eu hymddygiad a'u hagwedd o ganlyniad i fod o dan oruchwyliaeth. Roedd angen rhoi mwy o sylw hefyd i faterion integreiddio cymunedol tymor hir, gan gysylltu troseddwyr â sefydliadau cymunedol eraill a sicrhau bod hyn y mynd i barhau y tu hwnt i ddiwedd y cyfnod goruchwylio. Roedd angen sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon ac yn briodol ym mhob achos, yn enwedig gan gymryd i ystyriaeth y risg o aildroseddu a aseswyd.

Argymhellion

Dylai'r Bwrdd Prawf sicrhau bod:

1. *strategaeth cynllunio gweithlu gyffredinol yn cael ei datblygu*
2. *bod system fonitro yn cael ei sefydlu i gadarnhau bod yr holl staff yn cael eu goruchwylio a'u harfarnu'n gyson*
3. *bod camau yn cael eu cymryd i fonitro'n llawn effaith cynlluniau cydraddoldeb a chynlluniau amrywiaeth ehangach*
4. *bod mesurau gwerthuso a chanlyniad eglur yn cael eu datblygu ar gyfer gwaith gyda'r holl ddarparwyr partneriaeth*
5. *bod asesiadau risg o niwed boddhaol yn cael eu cwblhau a'u hadolygu'n rheolaidd ym mhob achos*
6. *bod ansawdd cynlluniau goruchwylio ac adolygiadau yn gwella, gan gynnwys defnyddio amcanion SMART*
7. *bod y cyswllt a drefnir gyda phob troseddwr yn cwrdd â safonau gofynnol safonau cenedlaethol o leiaf*
8. *bod camau yn cael eu cymryd i leihau'r cyfnod aros cyn i droseddwyr gychwyn ar raglenni achrededig*
9. *bod materion yn ymwneud â throseddwyr yn cael eu trin yn ddigonol wrth asesu a goruchwylio yr holl droseddwyr*
10. *bod achosion risg uchel o niwed yn cael eu goruchwylio'n briodol gan reolwyr*
11. *bod gwell defnydd yn cael ei wneud o ddata canlyniadau ar bob lefel o'r sefydliad*
12. *bod yr adnoddau a ddyrennir i bob achos yn gymesur â'u risg o niwed a'r tebygolrwydd o aildroseddu.*

Camau nesaf

- Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i'r Ysgrifennydd Gwladol a rhoddwyd copïau i'r Comisiynydd Gwasanaethau Cywirol, Cyfarwyddwr Cyffredinol y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, y Bwrdd Prawf a'r Prif Swyddog. Darparwyd copïau i'r wasg hefyd ac maent ar wefan AEM Prawf ar:

  http://www.homeoffice.gov.uk/justice/probation/inspprob/index.html

- Mae'r adroddiad yn gwneud nifer o argymhellion sydd â'r nod o annog yr ardal yn ei gwaith, datblygu peth o'i harfer da ei hun a hyrwyddo gwelliannau mewn ansawdd ac effeithiolrwydd yn y dyfodol.

- Gofynnir i'r Bwrdd anfon ymateb i'r argymhellion, ynghyd â chynllun gweithredu, o fewn tri mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad. Rhagwelir y bydd yr argymhellion yn cael eu gweithredu fel rheol o fewn 12 mis ar ôl cyhoeddi. Dylai hyn ganiatáu digon o amser ar gyfer eu hintegreiddio gyda datblygiadau presennol. Byddwn yn disgwyl hefyd i'r NPD sicrhau bod argymhellion i'r Byrddau yn cael eu gweithredu.

- Yn wahanol i raglenni arolygu ardal blaenorol, nid yw ESI yn cynnwys arolygiadau dilynol fel mater o drefn oni bai fod materion o bryder difrifol y mae angen mynd i'r afael â hwy. Mae'r arolygiad o Ardal Brawf De Cymru wedi datgelu nifer o faterion o'r fath a chynhelir arolygiad dilynol felly; cytunir ar yr amseriad a'r strwythur ar ôl derbyn cynllun gweithredu'r Bwrdd.

- Yn ogystal ag adroddiadau ar ardaloedd unigol byddwn yn cyhoeddi adroddiadau rheolaidd am ganfyddiadau ar draws sawl ardal brawf, i adlewyrchu'r ffaith mai'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol sy'n cynnal yr arolygiad hwn. Bydd adroddiadau o'r fath yn cynnwys mynd i'r afael â chydraddoldeb hiliol a materion amrywiaeth ehangach, gan gadw mewn cof, er enghraifft, bod nifer y troseddwyr o leiafrifoedd ethnig yn fach iawn fel arfer mewn llawer o ardaloedd prawf. Bydd yr adroddiadau hyn hefyd yn cynnwys cymariaethau ar berfformiad ardaloedd gyda nodweddion tebyg.

- Dros gyfnod tair blynedd y rhaglen ESI byddwn yn edrych ar waith y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol gyda rhyw 4,500 o achosion. Rydym wedi trefnu gyda Chyfarwyddiaeth Ymchwil, Datblygu ac Ystadegau'r Swyddfa Gartref y bydd achosion yn y sampl yn cael eu holrhain hyd y pwynt ailgollfarnu dwy flynedd. Bydd yn rhoi darlun tymor hirach o effeithiolrwydd ardaloedd unigol a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn gyfan.

TAFLEN GRYNHOI SGORIAU

Adran A: Ansawdd Rheoli	
A1: Arweinyddiaeth a chynllunio	Cyflawnwyd yn rhannol
A2: Dyrannu adnoddau	Cyflawnwyd yn rhannol
A3: Rheoli a goruchwylio staff	Cyflawnwyd yn rhannol
A4: Partneriaeth/contractio allan	Cyflawnwyd yn rhannol
A5: Cyfathrebu'n effeithiol gyda dedfrydwyr	Cyflawnwyd yn rhannol

Adran B: Ansawdd Asesu	
B1: Asesu risg o niwed	43%
B2: Asesu'r tebygolrwydd o aildroseddu	40%
B3: Rheoli achosion	43%
B4: Dogfennau	56%
Sgôr adran B	**44%**

Adran C: Ansawdd Ymyriadau	
C1: Rheoli presenoldeb a gorfodi	75%
C2: Darparu goruchwyliaeth briodol	52%
C3: Anghenion amrywiaeth	62%
C4: Ymatebolrwydd	59%
C5: Rheoli risg o niwed	58%
Sgôr adran C	**62%**

Adran D: Ansawdd Canlyniadau Cychwynnol	
D1: Mae ymyriadau yn cael eu cyflenwi gyda'r canlyniadau a ddymunir	59%
D2: Mae gwelliannau'n gynaliadwy	50%
D3: Mae canlyniadau ymyriadau yn cael eu hasesu a'u hadolygu gan ddefnyddio'r data sydd ar gael	Cyflawnwyd yn rhannol
D4: Mae ymyriadau yn rhoi gwerth am arian	67%
Sgôr adran D	**60%**

SGÔR GYFFREDINOL ADRANNAU B-D (heb gynnwys D3)	**56%**

TREFNIADAU AROLYGU

- Cychwynnodd y rhaglen ESI ym Mehefin 2003. Mae pob un o'r 42 o ardaloedd prawf sydd yn dod o dan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ar gyfer Cymru a Lloegr yn cael eu harolygu dros gyfnod o dair blynedd, gyda meysydd oedd yn arddangos nodweddion tebyg (o ran maint a dwysedd poblogaeth) yn cael eu harolygu yn yr un flwyddyn er mwyn ei gwneud yn haws cymharu perfformiad. Mae hyn yn ein galluogi i ganfod a hyrwyddo gwaith effeithiol gyda throseddwyr a lledaenu gwybodaeth am arfer da.
- Mae meysydd prawf yn cael eu hasesu i weld pa mor dda maent wedi cwrdd â meini prawf arolygu diffiniedig gan ganolbwyntio ar:
  - rheoli'r ardal yn gyffredinol
  - ansawdd yr asesiadau a gynhelir ar droseddwyr
  - ansawdd yr ymyriadau a wneir gyda throseddwyr
  - canlyniadau cychwynnol yr ymyriadau, mewn perthynas â ffactorau troseddegol megis cyflogaeth, llety a cham-drin cyffuriau, a hefyd a fu unrhyw leihad yn y risg o niwed a'r risg o aildroseddu.
- Mae'r arolygiad yn cymryd y data perfformiad NPS rheolaidd i ystyriaeth. Mae'r data hwn yn cael ei gynhyrchu gan y NPD sy'n gyfrifol am ei gasglu a sicrhau ei ansawdd.
- Cynhelir pob arolygiad dros gyfnod o ddwy wythnos, gyda thair neu bedair wythnos rhyngddynt. Gofynnir i'r ardal nodi sampl ar hap o 100 o droseddwyr (mwy yn yr ardaloedd mwyaf) sydd wedi bod o dan oruchwyliaeth ers tua naw/deg mis. Mae 20 ohonynt wedi eu cofrestru fel rhai gyda risg uchel o niwed. Mae'r achosion yn dod o'r rhan fwyaf o gategorïau o orchmynion a thrwyddedau.
- Yn ystod yr wythnos gyntaf o'r arolygiad rydym yn archwilio'r ffeil, yn cynnal cyfweliad trylwyr gyda'r rheolwr achosion a, lle bo modd, yn rhoi cyfweliad i'r troseddwr ac unrhyw bobl eraill sy'n cymryd rhan bwysig yn y gwaith goruchwylio (e.e. tiwtoriaid rhaglen achrededig, gweithwyr allweddol mewn hosteli, heddlu mewn achosion risg uchel o niwed, goruchwylwyr Cosb Gymunedol, a staff cyrff eraill sy'n ymwneud â chynnig gwasanaeth i droseddwyr mewn perthynas â chyffuriau, alcohol, cyflogaeth, ac ati).
- Mae'r gwaith arolygu mewn tua thraean o'r achosion yn y sampl yn cael ei wneud gan staff profiadol yn yr ardal brawf sy'n cael ei harolygu. Rydym o'r farn bod hyn yn brofiad cadarnhaol i'r ardal ac i'r staff sy'n cymryd rhan yn uniongyrchol a'i bod yn cynyddu perchnogaeth ar y canfyddiadau.
- Yn ystod ail wythnos yr arolygiad cynhelir cyfarfodydd gyda rheolwyr uwch a chanol ac aelodau'r Bwrdd Prawf i drafod materion yn ymwneud â rheoli'r maes prawf dan sylw, ac i roi peth adborth o wythnos gyntaf yr arolygiad. Rydym yn siarad gyda'r heddlu hefyd mewn perthynas â dulliau'r ardal o oruchwylio achosion risg uchel o niwed a gyda chynrychiolwyr o sefydliadau eraill sy'n helpu'r ardal i oruchwylio troseddwyr.
- Mae ESI hefyd yn cynnwys elfen thematig ychwanegol sy'n arwain, maes o law, at gyhoeddi adroddiad ar wahân sy'n disgrifio gwaith sawl ardal brawf. Yn yr ail garfan o saith ardal brawf sy'n cael eu harolygu yn ystod 2003/2004 yr elfen thematig yw Trais Teuluol. Cynhwysir crynodeb o'r canfyddiadau dros dro mewn perthynas â De Cymru ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

DULL SGORIO

Mae asesiadau o'r meini prawf Ansawdd Rheoli yn seiliedig ar dystiolaeth ysgrifenedig a thrafodaethau gydag aelodau'r Bwrdd, rheolwyr a chyrff eraill sy'n gweithio gyda'r gwasanaeth prawf i oruchwylio troseddwyr. Pennir sgôr ddisgrifiadol ar gyfer pob un o'r meini prawf hyn. Seilir sgoriau'r meini prawf Asesu, Ymyrryd, a'r mwyafrif o'r meini prawf Canlyniadau Cychwynnol ar arolygu gwaith gyda'r 100 o droseddwyr yn y sampl achos. Cyfrifir sgôr rifyddol ar gyfer pob un o'r meini prawf hyn. Mae gwybodaeth fanylach am y fethodoleg sgorio ar gael ar Wefan AEM Prawf.

Meini prawf Ansawdd Rheoli

- Ceir sgôr trwy asesu perfformiad ar bob un o'r eitemau tystiolaeth unigol o fewn y maen prawf (ac eithrio'r rhai hynny sy'n gysylltiedig â'r NPD). Diffinnir sgoriau fel:
  - **Cyflawnwyd yn dda iawn:** perfformiad cryf iawn ar bob eitem
  - **Cyflawnwyd yn dda:** perfformiad cryf ar bob eitem
  - **Cyflawnwyd yn foddhaol:** perfformiad cryf ar y mwyafrif o eitemau a pherfformiad boddhaol o leiaf ar y lleill
  - **Cyflawnwyd yn rhannol:** perfformiad da ar rai o'r eitemau a pherfformiad boddhaol o leiaf ar y lleill
  - **Ni chyflawnwyd:** perfformiad nad oedd ond boddhaol ar y gorau ar rai o'r eitemau
  - **Gwael:** fel arall.
- Ar gyfer Arweinyddiaeth a Chynllunio rhoddir pwysiad ychwanegol i berfformiad ar Gytundebau Cyflenwi Gwasanaeth a thargedau eraill y Llywodraeth: sef niferoedd yn cychwyn DTTO, gorfodi, cwblhau rhaglenni achrededig, absenoldeb salwch, cyswllt â dioddefwyr, amseroldeb ACDau, niferoedd yn cychwyn rhaglenni sgiliau sylfaenol a dyfarniadau sgiliau sylfaenol.
- Mae gan arolygwyr arweiniol yr hawl i addasu sgoriau os yw hyn yn ymddangos yn briodol o ganfyddiadau eraill neu wybodaeth gyd-destunol.
- Mae'r un dull yn cael ei fabwysiadu ar gyfer maen prawf D3 yr Ansawdd Canlyniadau cychwynnol 'Mae canlyniadau ymyriadau'n cael eu hasesu a'u hadolygu gan ddefnyddio'r data sydd ar gael.'

Meini prawf Ansawdd Asesu, Ymyriadau a Chanlyniadau Cychwynnol

- Cyfrifir sgôr ar gyfer pob maen prawf ar sail darllen ffeiliau achos, cyfweliadau gyda rheolwyr achos, cyswllt ag eraill sydd â chysylltiad agos â'r gwaith goruchwylio ac, o bosibl, sgyrsiau gyda'r troseddwyr eu hunain.
- Mae sgoriau ar gyfer pob un o'r meini prawf yn cael eu pwysoli fel y nodir uchod, gyda'r meini prawf allweddol yn cael eu pwysoli ddwywaith cymaint â'r meini prawf pwysig.

Ansawdd Asesu		
B1	Asesu risg o niwed	Allweddol
B2	Asesu'r tebygolrwydd o aildroseddu	Allweddol
B3	Rheoli achosion	Allweddol
B4	Dogfennau	Pwysig

Ansawdd Ymyriadau		
C1	Rheoli presenoldeb a gorfodi	Allweddol
C2	Darparu goruchwyliaeth briodol	Allweddol
C3	Anghenion amrywiaeth	Allweddol
C4	Ymatebolrwydd	Pwysig
C5	Rheoli risg o niwed	Allweddol

Ansawdd Canlyniadau Cychwynnol		
D1	Mae ymyriadau yn cael eu cyflenwi gyda'r canlyniadau a ddymunir	Allweddol
D2	Mae gwelliannau'n gynaliadwy	Pwysig
D4	Mae ymyriadau yn rhoi gwerth am arian	Allweddol

- Yna cyfrifir cyfradd perfformiad cyffredinol ar gyfer yr ardal, wedi ei bwysoli fel a ganlyn:
  - Ansawdd Asesu 30%
  - Ansawdd Ymyriadau 40%
  - Ansawdd Canlyniadau Cychwynnol 30%
- Mae'r daflen sgorio yn dangos yr asesiad neu'r sgôr a gofnodir ar gyfer pob maen prawf, yn ogystal â'r sgoriau cyffredinol ar gyfer Adrannau B, C, a D. Mae'r asesiad a'r sgoriau yn cael eu cofnodi hefyd ochr yn ochr â'r maen prawf perthnasol yn y testun.

TROSOLWG O'R ARDAL

- Yn nhermau ei phrif gyllideb refeniw o £19.7 miliwn yn 2003/2004, De Cymru yw'r nawfed ardal brawf fwyaf yng Nghymru a Lloegr. Mae ganddi gyfanswm poblogaeth o ryw 1,227,800 gyda dwysedd poblogaeth (personau fesul hectar) o 6.0, cryn dipyn yn uwch na chyfartaledd Cymru a Lloegr o 3.1. Yn hyn o beth, mae'n un o'r ardaloedd 'maint mawr, dwysedd uchel' (y tu allan i'r ardaloedd metropolitanaidd a Llundain yn y grwpiau teuluol o ardaloedd a ddefnyddir gennym ar hyn o bryd i dynnu cymariaethau.
- Mae'r data diweddaraf sydd ar gael yn dangos bod 3% o'r boblogaeth rhwng 18-54 yn dod o grwpiau ethnig lleiafrifol, cyfran ychydig yn llai na'r cyfartaledd o 9% ar gyfer Cymru a Lloegr yn gyfan.
- Yn 2002/2003 cofnodwyd 12,000 o droseddau fesul 100,000 o'r boblogaeth, oedd yn uwch na'r ffigwr o 11,300 ar gyfer Cymru a Lloegr yn gyfan. Roedd y ffigwr cyfatebol ar gyfer troseddau treisiol– 1,800 fesul 100,000 o'r boblogaeth – ychydig yn llai na'r ffigwr cenedlaethol o 1,900.
- Yn 2002 (y flwyddyn ddiweddaraf lle mae data ar gael) cafwyd 1,176 o bobl yn euog neu cawsant eu rhybuddio am droseddau ditiadwy fesul 100,000 o'r boblogaeth, ychydig yn uwch na ffigwr Cymru a Lloegr sef 1,050.
- Dangosir data a gasglwyd gan y NPD ar berfformiad De Cymru yn erbyn prif Gytundebau Cyflenwi Gwasanaeth y Swyddfa Gartref a rhai targedau allweddol eraill gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a safonau cenedlaethol ar y tabl drosodd. Ac eithrio lle nodir hynny, mae'r ffigyrau yn berthnasol i'r cyfnod Ebrill hyd Ragfyr 2003. Roedd yr ardal wedi perfformio'n dda ar niferoedd yn cychwyn DTTO a chyswllt â dioddefwyr ond yn llai boddhaol ar niferoedd yn cychwyn rhaglenni sgiliau sylfaenol ac yn ennill dyfarniadau a niferoedd oedd yn cwblhau rhaglenni achrededig. Roedd gweithredu tor-amod wedi bod ychydig o dan y targed ac roedd yn uwch na chyfartaledd Cymru a Lloegr. Roedd prydlondeb ACDau ac absenoldebau salwch wedi methu â chwrdd â'r targed, er bod y ddau'n agos i gyfartaledd Cymru a Lloegr ac er bod absenoldeb salwch wedi dangos gwelliant sylweddol ar y flwyddyn flaenorol. Roedd yr ardal wedi cwrdd â thargedau safonau cenedlaethol ar gyfer trefnu apwyntiadau a sesiynau gwaith mewn perthynas â gorchmynion CRO a CPRO, ac roedd ychydig o dan y targed ar gyfer gorchmynion CPO.
- Mae'r Gyfarwyddiaeth Brawf Genedlaethol yn cynhyrchu cerdyn sgorio pwysol cronnus sy'n cymharu perfformiad yr ardal yn erbyn targedau ar gyfer rhai o'r canlyniadau uchod. O'r rhai a gynhyrchwyd yn fwyaf diweddar cyn yr arolygiad (ym mis Medi a mis Rhagfyr 2003), roed De Cymru yn y trydydd safle ar ddeg a'r unfed safle ar bymtheg, ymysg yr ardaloedd prawf. Roedd lefel ei pherfformiad yn ganolig felly. Er hynny, roeddent yn dal i ddangos gwelliant sylweddol ar safle'r ardal ar ddiwedd 2002/2003 sef rhif 39 allan o'r 42 ardal.
- Roedd y gyfradd ailgollfarnu yn achos gorchmynion cymunedol yn llai na'r disgwyl. Canlyniad da oedd hwn mewn egwyddor, gan ei fod yn awgrymu bod llwyddiant wedi bod wrth leihau ailgollfarnu. Er hynny, nid oedd yn arwyddocaol yn ystadegol. Roedd angen bod yn ochelgar hefyd wrth ddehongli data ailgollfarnu yn enwedig ar lefel ardaloedd unigol ac roedd angen ystyried y canlyniadau yng nghyd-destun cyfraddau clirio'r heddlu a newidynnau eraill.

	Targed	De Cymru	Cyfartaledd Cymru a Lloegr
Y gyfran o'r ACDau llysoedd ynadon a baratowyd o fewn 15 diwrnod gwaith (SDA 1a)	90%	77%	73%
Sgiliau sylfaenol: % perfformiad yn erbyn y targed cychwyniadau (SDA 2)	100%	40%	78%
Sgiliau sylfaenol: % perfformiad yn erbyn y targed dyfarniadau (SDA 2)	100%	57%	90%
Niferoedd yn cwblhau rhaglenni achrededig: % perfformiad mewn perthynas â'r targed (SDA 3)	100%	73%	87%
Gorfodi – camau gweithredu tor-amod yn cael eu cymryd lle bo angen o fewn deg diwrnod gwaith (pob gorchymyn/trwydded) (SDA 4)	90%	84%	76%
Cychwyniadau DTTO: % perfformiad mewn perthynas â'r targed (SDA 6)	100%	136%	95%
Targed cyflogaeth cydraddoldeb hiliol yr Ysgrifennydd Cartref (SDA 7) (Ffigyrau ar gyfer 2002/2003)	1.7% (targed ar gyfer Cymru)	3.9% (canlyniad ar gyfer Cymru)	11.2%
Absenoldeb salwch: nifer diwrnodau'n absennol ar gyfartaledd (SDA 8)	9 o ddyddiau	12.4 o ddyddiau	12.1 o ddyddiau
Y gyfran o'r rhai a ddioddefodd droseddau rhywiol/treisiol difrifol (lle dedfrydwyd y troseddwr i gaethiwed am 12 mis neu fwy) a gafodd gynnig cyswllt o fewn wyth wythnos (SPM 1)	85%	94%	91%
Y gyfran o'r gorchmynion CRO lle trefnwyd 12 o apwyntiadau o fewn y 12 wythnos cyntaf	90%	95%	95%
Y gyfran o'r gorchmynion CPRO lle trefnwyd apwyntiadau gofynnol o fewn y 12 wythnos cyntaf	90%	90%	78%
Y gyfran o'r gorchmynion CPO gydag o leiaf pum awr o waith wedi ei drefnu bob wythnos ar gyfartaledd	90%	84%	87%
Cyfradd ailgollfarnau o fewn dwy flynedd yn achos gorchmynion cymunedol (gwybodaeth am gychwyniadau yn chwarter cyntaf 1999)	Cyrraedd cyfraddau gwirioneddol oedd yn is nag a ragfynegwyd	Gwirioneddol 56.9% Rhagfynegwyd 59.5%	Gwirioneddol 50.2% Rhagfynegwyd 51.7%

ADRAN A
ANSAWDD RHEOLI

A1	Arweinyddiaeth a chynllunio	**Cyflawnwyd yn rhannol**

Disgrifiad:
Mae'r Bwrdd a'r Prif Swyddog yn arwain yr ardal i gyflawni targedau cenedlaethol a gweithredu polisïau cenedlaethol trwy gynhyrchu polisïau a gweithdrefnau lleol sy'n cael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd. Mae'r NPD yn galluogi ardaloedd i weithio'n effeithiol ac yn effeithlon trwy ddatblygu targedau a pholisïau cenedlaethol yn unol â blaenoriaethau Gweinidogion a datblygu arweiniad ac adnoddau. Mae'r SMT wedi ymrwymo i weithredu targedau a blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys strategaethau What Works, rheoli risg a hyrwyddo amrywiaeth.

Cryfderau:

- Roedd y Cynllun Busnes Ardal ar gyfer 2003/2004 yn amlinellu blaenoriaethau ac amcanion cenedlaethol a lleol clir a pherthnasol ac yn disgrifio cynnwys a chefndir yr amgylchedd gweithredu lleol. Gwnaeth ddefnydd da o asesiad EEM 2003 yr ardal gan groesgyfeirio i asesiadau EEM blaenorol lle'r oedd meysydd tebyg ar gyfer gwella wedi cael eu nodi. Ymysg enghreifftiau o amcanion lleol roedd gwaith gyda throseddwyr mynych a lleihad yn nifer yr ACDau. Roedd y cynllun yn pwysleisio hefyd bwysigrwydd perfformiad a'r angen i ganolbwyntio ar reoli cyfleusterau er mwyn lleihau nifer yr adeiladau oedd cael eu defnyddio yn yr ardal ar y pryd.
- Ar gerdyn sgorio pwysol diweddaraf NPD roedd yr ardal yn yr unfed safle ar bymtheg allan o'r 42 o ardaloedd prawf ac yn gyntaf o'r chwe ardal yn y teulu 'maint mawr, dwysedd uchel'. Cafwyd gwelliannau sylweddol mewn perthynas â nifer o Gytundebau cyflenwi gwasanaeth gan ddod â hwy yn llawer nes i'r targedau cenedlaethol.
- Lluniwyd adroddiad monitro perfformiad cynhwysfawr chwarterol oedd yn darparu data cymharus rhwng isadrannau a thimau. Cafwyd taflen grynhoi gyda'r wybodaeth oedd yn galluogi'r Bwrdd a'r staff i ganolbwyntio ar feysydd gwaith penodol. Er bod yr adroddiad yn llawn gwybodaeth, roedd yn ormod o bwdin. Cydnabu'r SMT yr angen am system fwy defnyddiwr-gyfeillgar ac roedd yn y broses o greu adroddiad 'golau traffig' mwy cryno a fyddai'n darparu cymorth gweledol parod i ganfod meysydd lle'r oedd angen gwella.
- Roedd yr SMT wedi mynd ati i gyfathrebu gwybodaeth i reolwyr gweithredol ynghylch pob agwedd ar berfformiad trwy sesiynau fforwm ac atebolrwydd i'r ardal i gyd.
- Yn ogystal â gweithgareddau cysylltiedig â'r gyllideb yng Nghynllun Busnes 2003/2004, roedd yr ardal wedi canfod nifer sylweddol o flaenoriaethau ar gyfer gwella ac amserlen ar gyfer adrodd ar ddogfennau cychwyn prosiectau. Roedd y rhain yn cwmpasu 16 o wahanol benawdau, gan gynnwys, er enghraifft, ailsefydlu, cyfathrebu mewnol a throseddu a chysylltiadau allanol trosedd ac anhrefn.
- Roedd tystiolaeth dda bod uwch reolwyr yn defnyddio technegau rheoli prosiectau i reoli cynlluniau datblygu mawr, er enghraifft cyflwyno model rheoli achos ac ECP.
- Roedd y polisi rheoli risg busnes a'r gofrestr risg a fabwysiadwyd gan y Bwrdd yn cyflawni swyddogaethau rheoli da, yn nhermau gwneud y mwyaf o'r tebygolrwydd o gyflawni amcanion busnes, ac yn dangos arfer rheoli da.

- Cynhaliwyd asesiadau effaith ar ryw 40 o bolisïau ardaloedd lleol yn ôl gofynion Cynllun Cydraddoldeb Hiliol y NPD.
- Cynhaliwyd cyfarfod gwybodaeth a systemau Cymru gyfan bob chwe mis i adolygu cynnydd yn erbyn yr holl dargedau ar draws y wlad.

Meysydd ar gyfer gwella:

- Er bod Cynllun Busnes 2003/2004 yn cynnwys pwyntiau pwysig cenedlaethol perthnasol, cawsai ei gyhoeddi ryw dri neu bedwar mis yn hwyr oherwydd ymadawiad y Prif Swyddog blaenorol. Nid oedd y cynllun wedi cael proffil arbennig o uchel yn yr ardal, ac nid oedd chwaith wedi cael ei adolygu mewn ffordd systemataidd ar lefel y Bwrdd neu'r uwch reolwyr. Roedd y materion hyn eisoes yn cael sylw trwy i'r cynllun ar gyfer 2004/2005 gael ei gyhoeddi yn brydlon a'i ddosbarthu i holl reolwyr yr ardal.
- Nid oedd y model rheoli achos wedi cael ei sefydlu'n iawn eto yn yr ardal. Roedd angen datblygu gwaith Swyddogion y gwasanaeth prawf ymhellach gydag achosion risg isel o niwed a risg canolig.
- Roedd dryswch ymysg staff ynghylch y gwahaniaeth rhwng risg o niwed a risg o aildroseddu. Ychydig iawn o staff oedd yn ymwybodol o'r arweiniad MAPPA a gyhoeddwyd ym Mawrth 2003.
- Roedd angen adolygu'r Memorandwm Dealltwriaeth rhwng yr ardal, yr heddlu a'r awdurdodau lleol, mewn perthynas ag asesu risg a rheoli troseddwyr rhyw, yn wyneb deddfwriaeth newydd a chanllawiau MAPPA.
- Nid oedd gwybodaeth am berfformiad yn cael ei rhannu mewn dull cyson gydag ymarferwyr.
- Cadwyd polisïau a gweithdrefnau lleol ar lyfrgell ddogfennau ar y fewnrwyd, ond y cwestiwn oedd pa mor hwylus oedd hyn i ddefnyddwyr.

A2	Dyrannu adnoddau	**Cyflawnwyd yn rhannol**

Disgrifiad:
Mae'r ardal yn dangos dull strategol o ddyrannu adnoddau er mwyn cyflenwi perfformiad effeithiol ac mae'n dangos canlyniadau cadarnhaol mewn perthynas â gwerth am arian.

Cryfderau:

- Yn 2002/2003 roedd yr Archwiliad Mewnol wedi adrodd bod gan yr ardal fframwaith rheolaeth fewnol digonol, effeithiol a dibynadwy. Roedd y systemau ariannol a aseswyd fel rhai a 'reolwyd yn ddigonol' neu'n well yn cynnwys rheolaeth gyllideb, dyledwyr, credydwyr a'r gyflogres.
- Roedd cofrestr risg gynhwysfawr wedi cael ei datblygu i'r sefydliad i gyd gan roi'r risgiau yn eu trefn yn ôl effaith a thebygolrwydd. Nodwyd perchennog i bob risg yn nodi pa gamau gweithredu a fyddai'n cael eu cymryd a pha bryd o fewn cyfnod ymarferol.
- Rhoddwyd sylw penodol i strategaeth eiddo ardal gyfan oedd yn golygu tocio dros 3,000 o fetrau sgwâr o faint yr ystad. Yn 2003/2004 rhagwelwyd arbediad o £299,430 a fyddai'n cael ei drosglwyddo wedyn i gyllideb cyflenwi gwasanaethau rheng flaen.

Meysydd ar gyfer gwella:

- Cafwyd bod y gwaith o fonitro a mesur effaith mentrau cydraddoldeb hiliol a mentrau amrywiaeth ehangach heb ei ddatblygu'n llawn.
- Nid oedd llawer o waith wedi ei wneud eto i gysylltu gweithgareddau gyda chostau. Roedd peth gwybodaeth ar gael ynghylch cyfeirio troseddwyr a'r niferoedd sy'n mynd trwy'r system, ac roedd asesiad o'r gwerth am arian a ddarparwyd gan wasanaethau penodol a gontractiwyd allan yn dechrau treiddio trwodd mewn perthynas â llety a chyflogaeth.
- Penodwyd ymgynghorydd amrywiaeth RA, ond nid oedd potensial y swydd hon wedi cael ei wireddu eto, ac roedd pryder bod deilydd y swydd yn ynysig a phryder ynghylch ei le yn y strwythur rheoli. Roedd ymgynghorydd allanol yn delio â'r materion hyn ar hyn o bryd.
- Er bod uwch reolwyr a rheolwyr canol ill dau wedi adrodd bod egwyddor gyffredinol mewn grym bod dyraniad adnoddau yn cael ei gysylltu gyda'r risg o droseddu, ychydig o dystiolaeth oedd i gefnogi hyn.
- Nid oedd yr ardal wedi gwneud defnydd llawn o'r adnodd swyddogion gwasanaeth prawf eto. Mewn rhai achosion dyletswyddau llys neu ganolfannau adrodd oedd unig gyfrifoldebau swyddogion y gwasanaeth prawf ac ychydig o gyfle a gaent mewn sefyllfaoedd felly i ddefnyddio a datblygu eu sgiliau.

A3	Rheoli a goruchwylio staff	**Cyflawnwyd yn rhannol**

Disgrifiad:
Mae gan y Bwrdd a'r Prif Swyddog strategaethau cynllunio sy'n sicrhau bod troseddwyr yn cael eu goruchwylio'n effeithiol.

Cryfderau:

- Roedd buddsoddiad sylweddol wedi bod mewn hyfforddiant staff. Roedd y cynllun hyfforddi a datblygu yn gysylltiedig â chytundebau cyflenwi gwasanaeth ac yn cael ei flaenoriaethu o ran ei bwysigrwydd. Roedd Cyfeirlyfr Hyfforddiant yn cyd-fynd â'r cynllun oedd yn rhoi manylion am y digwyddiadau ar gyfer y flwyddyn ac yn datgan nodau ac amcanion pob cwrs.
- Roedd y ddarpariaeth NVQs yn dangos ymrwymiad yr ardal i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau ei gweithwyr. Gosodwyd disgrifiadau o'r NVQs oedd ar gael yn y Cyfeirlyfr Hyfforddiant, ynghyd â ffurflenni cais a gwybodaeth ynghylch y cymorth y gallai'r gweithiwr ei ddisgwyl yn ystod y cwrs.
- Roedd amcanion staff unigol yn gysylltiedig â'r cynllun busnes, gan gynnwys y ffaith bod gofyn i bob ymarferwr gael o leiaf un amcan amrywiaeth.
- Roedd rheolwyr canol yn gallu cael mynediad i wybodaeth uniongyrchol am berfformiad gan weinyddwyr perfformiad mewn timoedd.

Meysydd ar gyfer gwella:

- Roedd tystiolaeth bod newid wedi bod ym mhroffil y gweithlu mewn blynyddoedd diweddar, ond nid oedd strategaeth cynllunio gweithlu gynhwysfawr mewn grym nac adolygiad o system gweithlu.
- Er bod absenoldeb salwch wedi cael ei fonitro a'i leihau, roedd y canlyniadau yn dal yn brin o darged yr NPD, un o'r mesurau allweddol a ddefnyddiwyd gan yr NPD i asesu perfformiad yr ardal.
- Nid oedd systemau i ddangos a oedd staff yn cael eu goruchwylio wedi cael eu datblygu'n iawn. Roedd profiad staff o gael eu goruchwylio yn amrywio'n sylweddol o ran amledd ac ansawdd.
- Roedd templed safonol wedi cael ei gyflwyno yn yr ardal at ddefnydd rheolwyr wrth iddynt gynnal sesiynau goruchwylio a chyfarfodydd tîm, ond nid oedd hwn wedi cael ei ddefnyddio'n gyson ar lefel uwch reolwyr na reolwyr canol.
- Roedd llawer o'r staff heb gael hyfforddiant diweddar ar ymwybyddiaeth dioddefwyr.
- Roedd SATro wedi cael ei gyflwyno'n rhy hwyr i'r ardal gan yr NPD. Er bod yr hyfforddiant wedi gorffen, nid oedd y staff a welwyd yn ystod yr arolygiad yn siwr a ddylent fod yn cwblhau'r dogfennau'n awr.
- Roedd arwyddion yn Arolwg Gweithwyr 2003 bod ysbryd y staff yn isel ar y cyfan ac y gellid gwella cyfathrebu rhwng ymarferwyr ac uwch reolwyr. Roedd yn arwyddocaol bod staff o'r farn nad oedd polisïau a gweithdrefnau wedi cael eu cymhwyso'n gyson ar draws yr ardal.

A4	Partneriaeth/contractio allan	**Cyflawnwyd yn rhannol**

Disgrifiad:
Mae gan y Bwrdd a'r Prif Swyddog strategaethau a gweithdrefnau yn eu lle i sicrhau bod partneriaethau'r ardal gydag asiantaethau gwirfoddol a statudol yn cefnogi cyflenwi gwasanaeth ac yn rhoi gwerth am arian.

Cryfderau:

- Roedd y Bwrdd wedi cymeradwyo strategaeth bartneriaeth yn ddiweddar oedd wedi cael ei chynhyrchu mewn fformat EEM ac a oedd yn cofleidio egwyddorion What Works. Roedd yn cymryd i ystyriaeth argymhellion o astudiaeth a gomisiynwyd yn 2002 ynghylch y trefniadau partneriaeth a etifeddwyd o hen Wasanaethau Prawf Morgannwg. Yn yr astudiaeth hon nodwyd y byddai adnoddau yn y dyfodol yn cael eu canolbwyntio ar dair blaenoriaeth allweddol, sef camddefnyddio sylweddau, ETE, a chyngor am lety.
- Roedd timau risg uchel yn elwa ar ffurfio perthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda'r heddlu a rhannu gwybodaeth berthnasol am droseddwyr.
- Cynhaliwyd adolygiadau partneriaeth yn chwarterol gan Bwyllgor Adolygu Cynllunio a Pherfformiad y Bwrdd, er bod lle i wella mewn perthynas â materion gwerth am arian.
- Roedd gwybodaeth am y gyfran o'r gyllideb a wariwyd ar bartneriaethau yn eglur ac ar gael yn rhwydd.
- Roedd gan rai o staff y bartneriaeth fynediad uniongyrchol i CRAMS ac eSATro mewn swyddfeydd ardal.

- Yng Nghaerdydd, roedd swydd CPN wedi cael ei ariannu'n rhannol gan yr ardal i'w gwneud hi'n bosibl asesu troseddwyr ar gyfer triniaeth briodol.
- Roedd darpariaeth dda ar y cyfan o ran llety i droseddwyr. Roedd yr ardal yn ffodus bod ganddi ddau lety cymeradwy, perthynas weithio dda gyda'r saith awdurdod lleol (yn enwedig mewn perthynas â throseddwyr risg uchel o niwed) a chontract partneriaeth gyda Tai Trothwy. Nid oedd y contract hwn, fodd bynnag yn cwmpasu ardal De Cymru gyfan.

Meysydd ar gyfer gwella:

- Roedd y strategaeth bartneriaeth yn cynnwys ceisio adborth gan ddarparwyr partneriaeth ar gyfraniad yr ardal i'r trefniadau trwy gyfrwng arolwg boddhad blynyddol. Ond ar adeg yr arolygiad nid oedd hyn wedi cael ei gynnal eto.
- Nid oedd yr asiantaethau partneriaeth a gyfwelwyd yn deall yn eglur ar ba sail yr oedd yr ardal yn comisiynu gwaith ac roeddent yn teimlo nad oedd ffocws na chyfeiriad strategol iddo. Roedd partneriaid yn cael trafferth i wneud cysylltiadau gydag uwch reolwyr, er bod perthnasoedd gweithio da wedi cael eu datblygu gydag ymarferwyr.
- Nid oedd gweithio gyda phartneriaethau wedi cael ei integreiddio i gynlluniau timau lleol.
- Nid oedd digon o sylw wedi cael ei roi eto i feithrin cysylltiadau cymunedol. Adroddodd rheolwyr canol mai rheolwyr datblygu ymarfer oedd wedi cyflawni'r swyddogaeth hon, er enghraifft trwy wasanaethu Cynghorau Cydraddoldeb Hiliol a chyfarfodydd Cefnogi Pobl, ond roedd y swyddi hyn yn cael eu dileu'n raddol yn awr ac nid oedd gan y rheolwyr gwella perfformiad yr un math o allu i gyflawni'r dasg. O ganlyniad nid oedd yr ardal yn cael ei chynrychioli'n llawn ar hyn o bryd mewn partneriaethau diogelwch cymunedol.
- Roedd yr ardal yn cydnabod nad oedd gwasanaethau i droseddwyr o leiafrifoedd ethnig a throseddwyr oedd yn fenywod wedi cael eu datblygu'n ddigonol ac ychydig o ddarpariaeth oedd ar gyfer iechyd meddwl, yn enwedig i'r rhai hynny oedd wedi cael diagnosis deuol o broblemau seiciatrig a seicolegol.
- Ychydig o wybodaeth oedd am ddefnydd troseddwyr o asiantaethau partner, er bod yr asiantaethau hyn wedi cael gwybod na fyddai anfonebau'n cael eu talu oni bai eu bod yn sicrhau bod data monitro ar gael.
- Adroddodd staff partneriaeth gyfraddau cyfeirio is pan nad oedd ganddynt aelod staff wedi ei leoli yn y swyddfa brawf.

A5	Cyfathrebu'n effeithiol gyda dedfrydwyr	**Cyflawnwyd yn rhannol**

Disgrifiad:
Mae'r ardal yn cyfathrebu mewn dull rhagweithiol o ansawdd uchel, gyda chefnogaeth yr NPD, gyda dedfrydwyr a chlercod i'r ynadon lleol ynghylch goruchwylio troseddwyr a darparu adroddiadau.

Cryfderau:

- Ystyriwyd cyfathrebu gyda dedfrydwyr yn bwysig er mwyn cyflawni targedau NPS, hyrwyddo cyfiawnder troseddol 'cydlynus' a gwella hyder. Roedd Pwyllgorau Busnes Prawf ar gyfer pob un o'r wyth mainc yn Ne Cymru yn cyfarfod pob chwarter i drafod materion gweithredu. Trefnwyd cyfres o nosweithiau agored ar gyfer dedfrydwyr i gynnal gweithdai ar agweddau allweddol ar gyflenwi gwasanaeth, er enghraifft ECP, rhaglenni achrededig, ac ICCP.

- Sefydlwyd protocol rhwng yr ardal a Gwasanaeth Llysoedd Ynadon De Cymru mewn perthynas â pharatoi adroddiadau i gynorthwyo gyda dedfrydu, trefniadau cyswllt a hyfforddiant.
- Cynhaliwyd digwyddiad hyfforddi blynyddol – fel rhan o'r gwaith o hyfforddi ynadon – i sicrhau bod dedfrydwyr yn ymwybodol o agenda What Works ac ystod a chynnwys y dewisiadau dedfrydu oedd ar gael. Cynhaliwyd digwyddiadau rhannu gwybodaeth hefyd ar gyfer ynadon newydd eu penodi.
- Roedd Prif Swyddog Cynorthwyo wedi cael ei enwi i gymryd cyfrifoldeb am gyfathrebu allanol a chyswllt â dedfrydwyr.
- Roedd pecyn gwybodaeth cynhwysfawr i ddedfrydwyr wedi cael ei gynhyrchu oedd yn rhoi cyngor iddynt ar gynnwys ac amcanion yr ystod o ymyriadau a ddarparwyd gan yr ardal.
- Roedd yr ardal yn cyhoeddi cylchlythyr dair gwaith y flwyddyn ar gyfer cynghorwyr cyfreithiol.

Meysydd ar gyfer gwella:

- Nid oedd y protocol ar gyfer paratoi adroddiadau yn cynnwys unrhyw drefniadau i Lys y Goron ac nid oedd fawr ddim tystiolaeth o strategaeth gyswllt benodol gyda barnwyr.
- Oherwydd anawsterau i gael adnoddau cafwyd trafferthion i gynhyrchu'r holl ACDau yn brydlon a darparu SSRs. Oherwydd hyn roedd ergyd Cau'r Bwlch Cyfiawnder yn llai. Roedd Caerdydd, Abertawe a'r Fro wedi cychwyn rhaglen beilot yn ddiweddar i ddarparu adroddiadau fformat byr mewn ymateb i rai o'r materion prydlondeb.

ADRAN B
ANSAWDD ASESU

B1	Asesu risg o niwed	43%

Disgrifiad:
Mae risg o niwed yn cael ei asesu'n foddhaol gan ddefnyddio offeryn cymeradwy (SATro lle bo ar gael), offer asesu arbenigol, lle bo'n berthnasol, ac yn tynnu ar asesiadau gan MAPPA, asiantaethau eraill, ac asesiadau blaenorol gan y gwasanaeth prawf.

Cryfder:

- O 25 o asesiadau SATro a gwblhawyd, bernid bod 22 yn cynnwys asesiad o'r dosbarthiad risg o niwed oedd yn briodol ar y cyfan.

Meysydd ar gyfer gwella:

- Ym mron pob un o'r sampl achosion (91%) nid oedd asesiad risg boddhaol wedi cael ei gynnal pob 16 wythnos o leiaf.
- Mewn traean o'r achosion nid oedd yr ymyriadau a gynlluniwyd yn cydweddu'n agos gyda'r asesiad o risg o niwed a aseswyd.
- Of 27 o achosion perthnasol nid oedd 21 wedi cael eu hailasesu'n briodol yn dilyn digwyddiad arwyddocaol a allai beri pryder.
- Dim ond mewn 17% o'r achosion perthnasol y gwelwyd bod asesiad risg boddhaol wedi cael ei gynnal ar ddechrau'r cyfnod goruchwylio i droseddwyr risg uchel o niwed.
- Mewn dim ond 50% o'r achosion risg uchel neu risg uchel iawn o niwed yr oedd cynllun rheoli risg boddhaol wedi cael ei baratoi o fewn pum diwrnod gwaith ar ôl y gorchymyn neu ar ôl rhyddhau troseddwr ar drwydded.
- Nid oedd y rheolwyr yn cymryd rhan ddigonol yn y gwaith o asesu hanner yr achosion risg uchel o niwed neu amddiffyn plant.

B2	Asesiad o'r tebygolrwydd o aildroseddu	40%

Disgrifiad:
Mae'r tebygolrwydd o aildroseddu a ffactorau troseddegol yn cael eu canfod a'u hasesu'n foddhaol gan ddefnyddio offeryn cymeradwy (SATro, OGRS2, LSI-R, ACE).

Meysydd ar gyfer gwella:

- Mewn 21% o achosion nid oedd dim asesiad ar ffeil oedd wedi defnyddio OGRS2, SATro neu arf arall a gydnabyddir yn genedlaethol.
- Dim ond mewn 26% o achosion yr oedd y tebygolrwydd o aildroseddu a ffactorau troseddegol cysylltiedig wedi cael eu hasesu'n foddhaol.
- Er bod peth tystiolaeth bod rheolwyr yn defnyddio Matrics Thornton 2000 fel arf asesu, nid oedd yr arfer yn gyson ar draws yr ardal.

B3	Rheoli achosion	43%

Disgrifiad:
Mae'r achos yn cael ei reoli'n effeithiol ac ymyriadau'n cael eu cydlynu er mwyn ei gwneud yn bosibl mynd i'r afael â ffactorau troseddegol a rheoli unrhyw risg o niwed. Mae asesiad yr ISP neu'r CPO yn cymryd yr ACD, y SSR neu'r cynllun dedfryd i ystyriaeth mewn achosion trwyddedu, ac yn disgrifio cynllun gwaith cyffredinol ar gyfer pob troseddwr, yn unol â'r asesiadau o risg o niwed ac angen a'r tebygolrwydd o aildroseddu.

Cryfderau:

- Mewn 83% o achosion cymerwyd camau i sicrhau bod troseddwyr yn deall gofynion y gorchymyn neu'r drwydded. Cododd y ffigwr hwn i 100% ar gyfer achosion risg uchel o niwed.
- Roedd cynlluniau ISP yn sensitif i hil ac amrywiaeth mewn 80% o'r achosion risg uchel o niwed.

ENGHRAIFFT O ARFER DA

Roedd swyddog Cosb Gymunedol wedi mabwysiadu arfer defnyddiol wrth gyfleu gofynion gorchymyn i'r troseddwr. Roedd y contract Cosb Gymunedol yn cynnwys 13 o elfennau ar wahân ac roedd y swyddog yn gallu disgrifio'n fanwl sut aeth hi trwy'r rhain fesul un, gyda set o enghreifftiau cyfochrog i ddod â'r contract yn fyw.

Meysydd ar gyfer gwella:

- Dim ond traean o'r cynlluniau ISP a aseswyd a ystyriwyd yn ddigonol o safbwynt cwrdd â gofynion cynnwys ac amseru safonau cenedlaethol a, lle'r oedd yn briodol, tynnu ar asesiadau MARAC/MAPPA, asesiadau o gyfarfodydd rheoli risg eraill ac asesiadau blaenorol y gwasanaeth prawf.
- Ychydig o'r achosion a archwiliwyd oedd yn dangos bod sgiliau sylfaenol y troseddwr wedi cael eu sgrinio'n ddigonol trwy fod Ffurflen 20 Cwestiwn yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol ar ffeil. Yn fwy diweddar, roedd yr ardal wedi rhoi arweiniad i staff i gwblhau a chadw copi o'r ddogfen hon ar ffeil, a byddai hyn yn cynorthwyo i godi proffil anghenion sgiliau sylfaenol.
- Nid oedd amcanion SMART yn gyffredin mewn cynlluniau goruchwylio a byddai'r staff i gyd yn elwa ar gael hyfforddiant yn y maes hwn. Yn enwedig, dim ond 16% o'r achosion oedd yn cynnwys amcanion boddhaol, gan gymryd i ystyriaeth yr asesiad o risg ac angen.
- Mewn llai na hanner yr achosion yr oedd ymyriadau priodol wedi cael eu nodi i fynd i'r afael ag ymddygiad troseddol ac ailintegreiddio i'r gymuned.
- Mewn 56% o achosion ni ddiffiniwyd cyfrifoldebau cyswllt gyda phawb oedd ynglŷn â'r achos yn foddhaol. Er bod hyn yn arbennig o bwysig mewn achosion risg uchel o niwed ac achosion amddiffyn plant, roedd y ffigwr yma hyd yn oed yn uwch sef 67%.
- Nid oedd cynlluniau ISP wedi bod yn sensitif i faterion hil a materion amrywiaeth eraill mewn 59% o achosion perthnasol.
- Mewn 46% o'r achosion yn unig y cafwyd tystiolaeth bod y cynllun wedi cael ei gyfathrebu i'r troseddwr fel eu bod yn gallu cymryd rhan weithredol yn y broses gynllunio.

B4	Dogfennau	56%

Disgrifiad:
Mae'r holl ddogfennau perthnasol ar gael ac wedi cael eu cwblhau'n foddhaol.

Meysydd ar gyfer gwella:

- Roedd cofnodion achos wedi cael eu trefnu'n ddigon da ac wedi eu cwblhau mewn 51% yn unig o'r achosion a arolygwyd.
- Yn yr un modd, aseswyd bod gwybodaeth wedi cael ei chofnodi mewn dull eglur a digonol mewn 63% yn unig o'r achosion.
- Roedd tystiolaeth ar ffeiliau o gynlluniau ISP ac adolygiadau anghyflawn.
- Ychydig iawn o ffeiliau oedd yn cynnwys Adran gyfrinachol ar gyfer gwybodaeth trydydd parti neu ddioddefwyr ac mewn rhai achosion, roedd gwybodaeth sensitif wedi cael ei chofnodi yn y log cyswllt.
- Yr arfer lleol oedd i gofnodion cyfarfodydd amddiffyn cyhoeddus gael eu ffeilio ar wahân i'r ffeil achos, gyda'r canlyniad bod risg yn cael ei reoli mewn dull tameidiog.
- Nid oedd rheolwyr llinell bob amser yn wyliadwrus i gofnodi eu hymwneud ag achos ar y cofnod CRAMS.

ADRAN C
ANSAWDD YR YMYRIADAU

C1	Rheoli presenoldeb a gorfodi	75%

Disgrifiad:
Mae cyswllt gyda'r dioddefwr a gorfodi'r gorchymyn neu'r drwydded yn cael ei gynllunio a'i weithredu i gwrdd â gofynion safonau cenedlaethol.

Cryfderau:

- Mewn 83% o achosion roedd presenoldeb troseddwyr yn cael ei fonitro gan y rheolwr achos ar draws pob ymyriad gyda chamau gweithredu priodol yn cael eu cymryd lle'r oedd angen i sicrhau cydymffurfiad.
- Barnwyd bod dyfarniadau ynghylch derbynioldeb yr absenoldebau yn briodol yn y mwyafrif mawr o achosion.

Meysydd ar gyfer gwella:

- O'r achosion yn y sampl dim ond mewn 57% yr oedd y nifer gofynnol o apwyntiadau yn ôl safonau cenedlaethol wedi cael eu trefnu.
- Mewn tua pumed ran o'r achosion perthnasol nid oedd camau gweithredu tor-amod neu adalw wedi cael eu cymryd o fewn yr amserlen safonol genedlaethol.

C2	Darparu goruchwyliaeth briodol	52%

Disgrifiad:
Darperir ymyriadau er mwyn cyflawni'r amcanion a nodir yn yr ISP ac a gofnodir yn unol â safonau cenedlaethol. Rhoddir blaenoriaeth i waith goruchwylio yn unol ag asesiad risg ac angen parhaus a chymerir adolygiadau blaenorol i ystyriaeth ynghyd â gwaith a gynhaliwyd yn barod gan yr ardal ac asiantaethau eraill. Mae rheolwyr achos yn goruchwylio ac yn cyd-gysylltu gwaith staff eraill a sefydliadau partner ac mae'r holl staff yn chwarae rhan weithredol mewn ysgogi a chynorthwyo troseddwyr trwy gydol eu cyfnod dan oruchwyliaeth.

Cryfder:

- Roedd gwaith digonol wedi cael ei gyfeirio tuag at faterion ailintegreiddio cymunedol megis cam-drin sylweddau, cyflogaeth a llety ym mhob un o'r achosion risg uchel o niwed.

Meysydd ar gyfer gwella:

- Nid oedd cynnydd yn erbyn yr amcanion yn y cynllun goruchwylio wedi cael ei adolygu yn unol â'r safon genedlaethol mewn 66% o'r achosion yn gyffredinol ac mewn 50% o'r achosion risg uchel o niwed.
- Ni osodwyd amcanion SMART mewn 90% o adolygiadau cynlluniau goruchwylio ac mewn 46% o'r achosion aseswyd bod yr amcanion yn wael. Mewn perthynas ag achosion risg uchel o niwed, aseswyd bod 83% yn wael neu o ansawdd annigonol.
- Mewn 43% o achosion yn unig yr oedd ymyriadau priodol wedi cael eu cyflawni, gyda'r amseru a'r dilyniant yn adlewyrchu risg y troseddwr o niwed a'r tebygolrwydd y byddai'n

aildroseddu, a chymerwyd camau gweithredu i weithredu gofynion ychwanegol mewn gorchmynion neu drwyddedau mewn 21 yn unig o 34 o achosion perthnasol.

- Mewn dim ond 68% o'r achosion yn y prif sampl yr oedd gwaith digonol wedi cael ei gyfeirio i faterion ailintegreiddio cymunedol megis cam-drin cyffuriau, cyflogaeth a llety.
- Ystyriwyd mai dim ond mewn tua dwy ran o dair o'r achosion yr oedd y rheolwyr achos wedi gwneud cyswllt digonol gydag eraill oedd yn cyflenwi ymyriadau. Roedd y ffigwr ar gyfer achosion risg uchel o niwed yn uwch sef 83%, ond hyd yn oed yn y fan hon dylid bod wedi sicrhau ffigwr gwell o ystyried y math o droseddwr oedd o dan sylw.
- Dim ond mewn tua hanner yr achosion y dangoswyd tystiolaeth bod y rheolwr achos yn ysgogi'r troseddwr trwy atgyfnerthu'r gwaith a wnaethpwyd gan eraill a chysylltu â hwy i'w hatal rhag aildroseddu.
- Lle'r oedd gofyn i droseddwyr fynychu rhaglen achrededig nid oedd hon wedi cychwyn o fewn yr amserlen genedlaethol safonol mewn 60% o'r achosion. Yn achos nifer o droseddwyr ni chofnodwyd yn eglur y rhesymau dros yr oedi cyn cychwyn.
- Dim ond mewn traean o'r achosion yr aethpwyd i'r afael â materion yn ymwneud â dioddefwyr yn gyffredinol, ac roedd tuedd yn aml i edrych ar raglenni achrededig fel y ffordd o ddelio a materion yn ymwneud â dioddefwyr, hyd yn oed dipyn o amser cyn i'r troseddwr gychwyn ar y rhaglen. Yn fwy penodol, mewn achosion lle'r oedd dioddefwr uniongyrchol, dim ond 33% oedd â thystiolaeth bod gwaith yn cael ei gynnal i godi ymwybyddiaeth o effaith y drosedd ar y dioddefwr.
- Roedd digon o sylw wedi cael ei roi i faterion yn ymwneud â dioddefwyr mewn dim ond 67% o'r achosion risg uchel o niwed.
- Mewn 65% o achosion aseswyd nad oedd yr ymyriadau wedi herio'r troseddwr i gymryd cyfrifoldeb am y drosedd a'r canlyniadau.
- Mewn dim ond 63% o achosion CPO a CPRO yr ystyriwyd bod troseddwyr wedi cyflawni gwaith oedd yn llenwi eu hamser ac yn gofyn llawer ganddynt.
- Mewn rhai o'r achosion risg uchel o niwed nid oedd tystiolaeth ddigonol bod adolygiadau o gynlluniau goruchwylio yn ymgorffori cynlluniau cyfarfodydd rheoli risg neu gynadleddau amddiffyn plant.

C3	Anghenion amrywiaeth	**62%**

Disgrifiad:
Mae ystod lawn o ymyriadau i gwrdd ag anghenion amrywiol. Mae tystiolaeth o drefniadau cymorth priodol ar gyfer merched, troseddwyr o leiafrifoedd ethnig a throseddwyr anabl.

Cryfderau:

- Polisi'r ardal oedd na ddylai troseddwyr oedd yn fenywod neu o leiafrif ethnig gael eu gosod mewn grŵp oedd fel arall yn ddynion i gyd neu'n bobl wyn i gyd, oni bai fod y troseddwr ei hun yn cytuno i hyn.
- Cytunodd y mwyafrif o droseddwyr a gyfwelwyd yn ystod yr arolygiad fod yr ardal wedi cymryd eu hamgylchiadau unigol a'u hanghenion arbennig i ystyriaeth.

Meysydd ar gyfer gwella:

- Aethpwyd i'r afael yn ddigonol ag anghenion llythrennedd a dyslecsia troseddwyr mewn dim ond 58% o achosion perthnasol.
- Roedd ymyriadau yn cymryd sylw digonol o amrywiaeth mewn 64% o achosion yn unig er y cyrhaeddwyd ffigwr uwch o 83% mewn perthynas ag achosion risg uchel o niwed.

C4	Ymatebolrwydd	**59%**

Disgrifiad:
Cymerir arddull dysgu troseddwyr, eu cymhelliant a'u gallu i niwed i ystyriaeth yn y cynllun asesu ac ymyrryd.

Cryfder:

- Dangosodd yr arolygiad mewn 83% o achosion risg uchel o niwed bod digon o ystyriaeth wedi cael ei rhoi i'r dulliau oedd yn fwyaf tebygol o fod yn effeithiol gyda throseddwr penodol, e.e. y math o ymyriad neu ei gyflymder, rhaglenni achrededig neu leoliad Cosb Gymunedol.

Meysydd ar gyfer gwella:

- O ran y sampl gyffredinol, mewn dim ond 59% o achosion y gwelwyd bod digon o ystyriaeth wedi cael ei rhoi i'r dulliau oedd yn fwyaf tebygol o fod yn effeithiol gyda throseddwr penodol.
- Cafwyd bod ansawdd y gwaith cyn rhyddhau yn annigonol mewn perthynas â'r asesiad o risg ac angen, cymhelliant y troseddwr, a'u gallu i newid, mewn ychydig dros hanner yr achosion trwydded carchar a arolygwyd.
- Oherwydd gwendid cyffredinol yn asesiad yr ardal o droseddwyr nid oedd materion yn ymwneud ag arddull dysgu troseddwyr yn cael sylw digonol yn aml.

C5	Rheoli'r risg o niwed	**58%**

Disgrifiad:
Mae'r risg o niwed yn cael ei reoli'n weithredol trwy ymgynghori ag asiantaethau eraill.

Cryfderau:

- Roedd camau gweithredu addas wedi cael eu cymryd ym mhob achos lle'r oedd ystyriaeth amddiffyn y cyhoedd wedi codi.
- Ymwelwyd â'r mwyafrif o'r troseddwyr risg uchel o niwed yn y prif sampl yn eu cartrefi.
- Ym mhob un o'r achosion risg uchel o niwed roedd newid i lefel y risg wedi cael ei nodi a'i reoli'n ddigonol.

ENGHRAIFFT O ARFER DA

Roedd Andy wedi cael diagnosis o anhwylder affeithiol deubegynnol. Roedd ganddo hanes hir o droseddu treisgar gan gynnwys DV a bygwth gweithwyr proffesiynol. Oherwydd cymhlethdod yr achos, pan aildroseddodd Andy ymgynghorodd y rheolwr achos gydag Uned Amddiffyn Cyhoeddus yr NPD cyn ysgrifennu'r ACD. Ar sail asesiad seiciatrig nid oedd ymyriad adeiladol yn opsiwn gan y byddai wedi arwain at godi lefel risg y troseddwr. Ffocws y gwaith goruchwylio felly oedd rheoli risg gan gynnwys cyswllt helaeth gydag asiantaethau eraill trwy gyfrwng y broses MAPPA. Dangosodd y rheolwr achos beth gwaith ardderchog wrth gael y troseddwr i gydymffurfio gyda'i apwyntiadau, gan bwyso a mesur anghenion yr unigolyn yn erbyn materion amddiffyn y cyhoedd. Pan droseddwyd eto, gan arwain at ddedfryd o garchar, ymgynghorodd y rheolwr achos gyda staff y carchar mewn perthynas â risg y troseddwr, a phwy oedd yn wynebu risg.

Meysydd ar gyfer gwella:

- Mewn traean o'r achosion nid oedd lefel yr ymyriadau yn ddigonol ar gyfer y risg o niwed a aseswyd.
- Mewn perthynas â'r prif sampl, dim ond mewn 51% o achosion perthnasol yr oedd y risg o niwed wedi cael ei nodi a'i reoli'n ddigonol, gan gynnwys cymryd materion yn ymwneud â dioddefwyr i ystyriaeth.
- Mewn traean o achosion dangoswyd nad oedd y cynllun rheoli risg rhyng-asiantaethol wedi cael ei gynhyrchu na'i weithredu'n ddigonol.
- Dim ond mewn 25% o'r achosion risg uchel o niwed yr oedd y cynllun rheoli risg wedi cael ei adolygu.
- Er bod gan yr ardal ddogfen ysgrifenedig eglur yn ymdrin â strwythur a phroses MARAC a MAPPA, roedd cryn dipyn o ddryswch ymhlith y staff ynghylch y diffiniad o risg. Ychydig o dystiolaeth oedd, ar ben hynny, bod staff yn ymwybodol o lawlyfr arweiniad MAPPA a gynhyrchwyd yn 2003.
- Nid oedd staff prawf yn cymryd digon o ran mewn trefniadau amddiffyn plant mewn pump allan o saith achos perthnasol.
- Nid oedd gwaith goruchwylio rheolwyr yn unol â pholisi cenedlaethol ac ardal wedi ei gofnodi'n dda ar gofnodion achos bob tro. Mewn 50% o'r achosion bernid bod y gwaith goruchwylio yn annigonol.

ADRAN D
ANSAWDD Y CANLYNIADAU CYCHWYNNOL

D1	Cyflenwir ymyriadau gyda'r canlyniadau a ddymunir	**59%**

Disgrifiad:
Cyflawnir yr amcanion a gynlluniwyd ac mae'r risg o niwed/y tebygolrwydd o aildroseddu yn cael ei leihau'n amlwg.

Cryfder:

- Dim ond nifer fach o droseddwyr oedd wedi cael eu collfarnu am drosedd bellach, a gyflawnwyd ers dechrau'r gorchymyn neu'r drwydded.

Meysydd ar gyfer gwella:

- Nid oedd sgoriau SATro na data seicometrig ar gael i fesur niwed yn agweddau troseddwyr dros y cyfnod dan oruchwyliaeth.
- Canfu rheolwyr achos nifer o ffactorau troseddegol a gysylltwyd â throseddwyr dan oruchwyliaeth. Y ffactor mwyaf cyffredin a nodwyd oedd diffygion mewn sgiliau meddwl, ac wedi hynny camddefnyddio alcohol, camddefnyddio cyffuriau, problemau perthynas, rheoli dicter ac iechyd meddwl. Mewn dadansoddiad o gynnydd cyffredinol dangoswyd cynnydd sylweddol neu beth cynnydd mewn perthynas â 45% o'r ffactorau a nodwyd.
- Dim ond mewn 26% o achosion y dangoswyd newid cadarnhaol mewn agweddau, credoau ac ymddygiad mewn perthynas â throseddu, a chynnydd mewn ymwybyddiaeth o effaith y drosedd ar y dioddefwr(wyr).
- Nid oedd dim achosion risg uchel neu uchel iawn o niwed lle'r oedd y risg wedi cael ei leihau'n amlwg.
- Roedd y gwelliant yn amgylchiadau cymdeithasol a chysylltiadau cymunedol troseddwyr wedi bod yn annigonol mewn 70% o achosion cymwys yn gyffredinol ac yn 100% o'r achosion risg uchel o niwed.
- Mewn dim ond 32% o achosion y cafwyd tystiolaeth bod y troseddwr wedi gwneud defnydd o ganlyniadau dysgu a sgiliau a enillwyd yn ystod y cyfnod dan oruchwyliaeth.
- Mynychodd troseddwyr y cwbl, neu bron y cwbl o'r apwyntiadau neu'r sesiynau gwaith a gynlluniwyd mewn 68% o'r achosion a aseswyd fel rhan o'r arolygiad.
- Yn y sampl gyffredinol aseswyd 61% a'r achosion fel rhai oedd wedi cydymffurfio ag amodau'r gorchymyn neu'r drwydded. Roedd y ffigwr ar gyfer yr achosion risg uchel o niwed yn uwch, fodd bynnag, sef 83%.

D2	Mae gwelliannau'n gynaliadwy	**50%**

Disgrifiad:
Mae'n bosibl cynnal canlyniadau y tu hwnt i ddiwedd y cyfnod goruchwylio.

Cryfder:

- Rhoddwyd sylw digonol i faterion integreiddio tymor hir yn yr holl achosion risg uchel o niwed.

ENGHRAIFFT O ARFER DA

Roedd prosiect Cosb Gymunedol ym Merthyr Tudful wedi creu gardd goffa mewn ysgol er cof am y pennaeth oedd wedi marw. Roedd y prosiect yn cynnwys gwaith creadigol a diddorol ar gyfer troseddwyr, gan gynnwys adeiladu amffitheatr bach. Gwahoddwyd troseddwyr a staff i agoriad yr ardd a llwyfannodd y plant ddrama yn yr amffitheatr. Mae cyfraniad y cynllun Cosb Gymunedol wedi ei gofnodi ar blac. Roedd y gwaith hwn yn rhoi cyfle i'r troseddwyr ddefnyddio eu sgiliau, roedd y buddiolwyr yn ddiolchgar a chafwyd cydnabyddiaeth gyhoeddus.

Meysydd ar gyfer gwella:

- Mewn dim ond 54% o'r achosion perthnasol y rhoddwyd sylw i faterion integreiddio tymor hir i'r gymuned a gwneud cysylltiadau priodol gydag adnoddau cymunedol a theuluol.
- Ysbeidiol oedd y gwaith i gysylltu troseddwyr gyda sefydliadau prif ffrwd, fel y gellid delio â'u hanghenion ar ôl diwedd cyfnod goruchwylio. Er bod y gwaith yn ddigonol mewn 80% o'r achosion risg uchel o niwed, aeth y ffigwr hwn i lawr i 46% o'r achosion yn y sampl gyffredinol.
- Dim ond 42% o'r bobl eraill oedd yn cymryd rhan arwyddocaol mewn cyflenwi ymyriadau oedd yn ystyried bod y canlyniadau cadarnhaol o'r ymyriad wedi bod yn gynaliadwy.

D3	Mae canlyniadau ymyriadau'n cael eu hasesu a'u hadolygu gan ddefnyddio'r data sydd ar gael	**Cyflawnwyd yn rhannol**

Disgrifiad:
Defnyddir yr holl ddata sydd ar gael i asesu effeithiolrwydd ymyriadau.

Cryfderau:

- Cynhyrchwyd adroddiad yn ddiweddar ar gyfer y Bwrdd oedd yn mynd i'r afael ag athreuliad mewn rhaglenni ymddygiad troseddol. Bwriadai'r ardal ddefnyddio'r wybodaeth i wella cyfraddau cadw fel y byddai cyfran y troseddwyr oedd yn cwblhau eu gorchmynion yn llwyddiannus yn codi.
- Cynhyrchodd yr SMT adroddiad monitro perfformiad manwl bob chwarter er bod angen symleiddio'r data hwn i'w wneud yn hwylus i'r defnyddiwr. Roedd yr ardal yn y broses o fynd i'r afael â hyn.

Meysydd ar gyfer gwella:

- Roedd angen rhoi sylw i sefydlu mesurau canlyniad mewn achosion Cosb Gymunedol.
- Nid oedd canfyddiadau ymchwil yn cael eu darparu i staff fel mater o drefn i ddarparu sylfaen ar gyfer polisi ac arfer.
- Er bod tystiolaeth o rywfaint o drafod ar ddata monitro a gwerthuso gan ymarferwyr a rheolwyr canol, ychydig o enghreifftiau a gafwyd o arfer yn cael ei ddiwygio neu ei wella o ganlyniad.
- Nid oedd y Bwrdd na'r SMT yn ystyried mesurau canlyniad fel mater o drefn.

D4	Mae ymyriadau'n dangos gwerth am arian	**67%**

Disgrifiad:
Mae ymyriadau'n cael eu cyflenwi gan ddefnyddio adnoddau mewn dull effeithlon a phriodol.

Cryfderau:

- Ystyriwyd bod adnoddau wedi cael eu dyrannu yn gyson â risg o niwed y troseddwr mewn 78% o achosion.
- Mewn 83% o'r achosion risg uchel o niwed aseswyd bod yr adnoddau wedi cael eu defnyddio'n effeithlon.

Meysydd ar gyfer gwella:

- Mewn 38% o achosion barnwyd nad oedd yr adnoddau a ddyrannwyd i'r gwaith yn cydweddu â'r risg o aildroseddu.
- Ystyriwyd bod adnoddau wedi cael eu defnyddio'n effeithlon mewn 62% yn unig o achosion.
- Mewn achosion CP roedd angen system i gael adborth gan fuddiolwyr.

ELFEN THEMATIG: TRAIS TEULUOL

CRYNODEB O'R CANFYDDIADAU DROS DRO AR GYFER DE CYMRU

Rhagarweiniad

Mae pob arolygiad yn y rhaglen ESI yn cynnwys elfen thematig. Yn yr ail grŵp o saith ardal yr ymwelwyd â hwy trais teuluol (DV) oedd yr elfen hon. Cyhoeddir adroddiad llawn ar yr arolygiad thematig cyfan cyn gynted ag y bo modd ar ôl yr ymweliad â'r olaf o'r ardaloedd hyn.

Datblygwyd set o safonau ar gyfer yr elfen thematig sy'n cynrychioli arfer gorau ym maes gwaith DV prawf. Mae hyn yn golygu'n anorfod y bydd canlyniadau'n disgyn yn fyr o sgôr berffaith ac mae'n arbennig o berthnasol yn achos DV lle mae'r gwaith yn cael ei gyflawni mewn sefyllfa aml-asiantaeth gymhleth. Yn genedlaethol mae lle mawr i wella oherwydd na fu cyfeiriad strategol eglur tan yn ddiweddar. Dylid edrych ar ganlyniadau'r ardal yn y goleuni hwn.

Dylid cymryd i ystyriaeth hefyd fod yr achosion y creffir arnynt fel rhan o'r arolygiad hwn yn dod o gyfnod cyn datblygiadau cenedlaethol diweddar megis gweithredu rhaglenni achrededig a chyflwyno arf asesu DV safonol.

Am nad yw'r adroddiad thematig wedi cael ei gyhoeddi eto, mae pob un o'r adroddiadau ESI ardal yn cynnwys crynodeb o'r canfyddiadau DV dros dro am yr ardal. Rhoddir y crynodeb ar gyfer De Cymru isod.

Graddau ansawdd

Ansawdd Rheoli DV: O'r chwech maen prawf Rheoli perthnasol (A1-A5 a D3), cyflawnwyd tri yn rhannol ac roedd tri heb eu cyflawni.

Sgoriwyd y meini prawf eraill trwy ddadansoddi'r gwaith DV a wnaethpwyd gan yr ardal gyda 21 o achosion lle'r oedd DV, neu lle dylai fod wedi bod, yn nodwedd arwyddocaol o oruchwylio. Roedd y sgoriau ar gyfer y cwestiynau unigol (a restrir ymhellach isod) wedi eu pwysoli a'u cyfuno i gynhyrchu'r tair gradd ansawdd canlynol.

Ansawdd Asesu DV	**22%**
Ansawdd Ymyriadau DV	**39%**
Ansawdd Canlyniadau cychwynnol DV	**34%**

Asesu cyffredinol

Roedd Ardal Brawf De Cymru wedi cynnal ffocws strategol ar faterion DV mewn cydweithrediad ag asiantaethau eraill ac roedd yn cymryd rhan weithgar mewn datblygiadau blaengar ac arloesol rhwng asiantaethau. Roedd yn destun rhwystredigaeth i ymarferwyr a rheolwyr nad oedd rhaglen achrededig wedi bod ar gael. Roedd sgoriau asesu'n wael iawn, ond roedd hyn yn adlewyrchu'n rhannol y ffaith bod SATro wedi cael ei roi ar waith yn ddiweddar a bod arfau asesu blaenorol yr ardal yn wael. Nodwyd peth arfer da yn ystod yr arolygiad ond roedd sawl agwedd unigol ar ymarfer a oedd angen ei gwella, yn enwedig y gwaith asesu a rheoli risg o niwed.

Argymhelliad

Dylai'r Bwrdd Prawf sicrhau bod yr ardal:

- *yn gwella ansawdd yr asesu a'r gwaith rheoli risg o niwed mewn achosion DV*
- *yn monitro, yn adolygu ac yn gwerthuso effeithiolrwydd ymyriadau cyfyngol ac adeiladol mewn perthynas â DV.*

ADRAN A
ANSAWDD RHEOLI DV

A1: Arweinyddiaeth a chynllunio:	Asesiad
Mewn cydweithrediad ag asiantaethau partner, mae'r ardal yn gweithredu polisi lleihau niwed DV cynhwysfawr sy'n cyd-fynd ag arweiniad cenedlaethol ac yn cael ei ategu gan gynllun gweithredu strategol. Mae strwythurau a phrosesau rheoli effeithiol yn eu lle i gyflenwi polisi DV, ac mae rheolwyr yn cael eu dal yn gyfrifol am ei weithredu'n effeithiol:	CYFLAWNWYD YN RHANNOL

Cryfderau:

- Roedd prosiect DV wedi cael ei lansio ym mis Mai 2003 gyda'r nod o ddatblygu polisi, archwilio cyfleon am gydweithredu rhwng asiantaethau, symud tuag at roi rhaglen i gyflawnwyr ar waith a gwella cysylltiadau gyda budd-ddeiliaid lleol a rhanbarthol. Arweiniwyd tîm prosiect ar draws graddau gan Brif Swyddog Cynorthwyol er mwyn datblygu'r gwaith.
- Roedd polisi DV a chyfarwyddiadau gweithdrefnol dros dro wedi cael eu rhoi ar waith ym mis Tachwedd 2003. Roedd y fframwaith yn gymorth i ymarferwyr, er bod rheolwyr yn cydnabod y byddai angen ei ddiweddaru er mwyn cwmpasu rhai agweddau pwysig ar DV yn ogystal â datblygiadau newydd.
- Roedd y rheolwyr prawf yn aelodau o Fforwm Cam-drin Teuluol De Cymru. Roedd datblygiadau mewn DV wedi symud ymlaen ar gyflymder gwahanol ar draws yr ardal, gyda Chaerdydd ar y blaen i'r gweddill yn bennaf oherwydd bod yr Uned Diogelwch Merched wedi cael ei sefydlu.
- Roedd De Cymru wedi cyflwyno MARACs gan ganolbwyntio yn unig ar achosion DV. Roed y trefniadau wedi cychwyn yng Nghaerdydd. ac ar adeg yr arolygiad, roeddent wedi cael eu cyflwyno ar draws yr ardal gyfan. Roedd y dull gweithredu hwn yn galluogi pobl i ganolbwyntio'n fwy cyson a gwybodus ar DV.
- Roedd Ardal Brawf De Cymru wedi llofnodi Protocol Rhannu Gwybodaeth am Gam-drin Teuluol.
- Roedd yr ardal yn treialu Adolygiadau Achos Dynladdiad DV amlasiantaeth.
- Adroddodd cynrychiolydd o'r heddlu bod gwaith cyswllt da wedi bod gyda'r gwasanaeth prawf.
- Ar y cyd ag ardaloedd prawf eraill yng Nghymru roedd yr ardal wedi cyflwyno bid lwyddiannus i gael gweithredu rhaglen achrededig IDAP.
- Roedd De Cymru wedi cyfrannu at y Strategaeth Cam-Drin Teuluol Cymru Gyfan ddrafft a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.
- Roedd uwch reolwyr ac aelodau o'r Bwrdd wedi dangos ymrwymiad i wella gwasanaethau DV trwy ymateb i gynlluniau lleol a chenedlaethol. Soniwyd am DV fel maes ar gyfer datblygu yng Nghynllun Busnes 2003/2004. Roeddent hefyd yn cefnogi presenoldeb reolwyr canol mewn fforymau DV lleol.

Meysydd ar gyfer gwella:

- ER bod ffocws strategol wedi bod yn ddiweddar ar DV roedd angen gwaith pellach ar rai agweddau o'r dull gweithredu, e.e. roedd angen i'r gwasanaeth prawf weithredu'n fwy rhagweithiol i sefydlu protocolau eglur gydag asiantaethau perthnasol eraill ac roedd angen iddo fod yn fwy cyson ar draws yr ardal gyfan.

- Nid oedd gan yr ardal unrhyw dargedau na dangosyddion perfformiad penodol ar gyfer DV.
- Nid oedd dim adroddiadau monitro ar gael ar berfformiad mewn perthynas â DV.

A2: Dyrannu adnoddau:	Asesiad
Mae'r ardal yn dangos dull strategol o ddyrannu adnoddau'n effeithiol ar gyfer gwaith DV.	CYFLAWNWYD YN RHANNOL

Cryfderau:

- Gwnaeth yr ardal gyfraniad sylweddol o ran amser staff i MARACs a fforymau amlasiantaeth eraill.
- Roedd De Cymru wedi secondio aelod o staff i Uned Diogelwch Merched Caerdydd.
- Lle'r oedd y materion wedi cael eu nodi o'r cychwyn dyrannwyd achosion DV i swyddogion prawf ac roedd tystiolaeth o'r gwaith maes bod hyn yn digwydd. Roedd darpariaeth hefyd ar gyfer ailddyrannu pan oedd lefelau risg yn newid.

Maes ar gyfer gwella:

- Nid oedd yr ardal yn eglur ynghylch y canlyniadau cysylltiedig â DV yr oedd yn ceisio eu cyflawni er, ei bod yn cyfrannu at ddatblygu strategaethau lleol fel rhan o'i gwaith gyda fforymau DV lleol.

A3: Rheoli a goruchwylio staff:	Asesiad
Mae polisïau, strategaethau ac arferion rheoli personél AD yn sicrhau bod gwaith lleihau niwed DV yn cael ei gyflawni'n effeithiol.	HEB EI GYFLAWNI

Cryfderau:

- Roedd rheolwyr achos yn cael eu goruchwylio a'u harfarnu fel mater o drefn.
- Roedd gwasanaethau cynghori ar gael ar gyfer y staff i gyd.

Meysydd ar gyfer gwella:

- Nid oedd polisïau AD yr ardal yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â DV e.e. staff fel dioddefwyr a chyflawnwyr.
- Er bod rhai ymarferwyr wedi mynychu hyfforddiant cysylltiedig â DV, nid oedd yr ardal wedi sicrhau bod gan yr holl ymarferwyr a rheolwyr oedd yn gwneud gwaith cysylltiedig â DV ddigon o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth ar gyfer y dasg. Nid oeddent wedi derbyn cynnig gan yr Uned Diogelwch Menywod i roi hyfforddiant i'w staff. Roedd yr ardal wedi ymrwymo i anfon staff i fynychu hyfforddiant SARA ac wedi datblygu cynllun hyfforddi i gwrdd ag anghenion lansio IDAP.
- Nid oedd yr ardal yn gallu darparu adnodd arbenigol i ymgynghori ar faterion ymarfer cysylltiedig â DV.

A4: Partneriaeth/contractio allan:	Asesiad
Mae rheoli partneriaethau ardal yn sicrhau bod niwed DV yn cael ei leihau'n sylweddol.	HEB EI GYFLAWNI

Maes ar gyfer gwella:

- Nid oedd gan De Cymru ddim contractau ffurfiol gyda phartneriaid i ddarparu gwasanaethau. Er hynny, roedd Uned Diogelwch Merched Caerdydd yn bartner anffurfiol pwysig a dylanwadol. Er bod rhaid canmol yr ardal am secondio aelod staff i'r prosiect roedd angen sefydlu protocol ffurfiol a gellid bod wedi elwa mwy ar yr adnodd arbenigol hwn, e.e. cyngor a hyfforddiant.

A5: Cyfathrebu'n effeithiol gyda dedfrydwyr:	Asesiad
Mae cyfathrebu yn yr ardal gyda dedfrydwyr a chlerchod i'r ynadon yn cefnogi'r gwaith o leihau niwed o DV.	CYFLAWNWYD YN RHANNOL

Cryfder:

- Roedd De Cymru wedi cyfrannu at Gynhadledd Flynyddol Ynadon 2003 oedd yn canolbwyntio ar DV a'r sôn oedd ei bod wedi cael effaith fawr.

Maes ar gyfer gwella:

- Nid oedd yr ardal yn rhoi adborth am ganlyniadau cysylltiedig â DV i ddedfrydwyr.

ADRAN B
ANSAWDD ASESIADAU DV

B1: Asesiad o risg o niwed	Sgôr
Mae risg o niwed yn cael ei ganfod a'i asesu'n foddhaol gan ddefnyddio arfau cymeradwy a chan dynnu ar assesiadau perthnasol, gwybodaeth am y dioddefwr sydd ar gael, collfarnau blaenorol a gwybodaeth am ffactorau risg DV.	23%

Nodyn: ***Nid oedd SATro wedi cael ei weithredu ar yr adeg pan oedd y mwyafrif o achosion yn y sampl wedi cychwyn. Roedd yr arf asesu risg blaenorol yn wael ac felly mae'r sgoriau yn yr adran asesu yn adlewyrchu hyn.***

Meysydd ar gyfer gwella:

- Mewn naw allan o 18 o achosion ystyriwyd nad oedd y categori risg o niwed wedi cael ei asesu'n fanwl gywir.
- Mewn dim ond un allan o 20 o achosion yr oedd yr asesiad o risg o niwed ar ddechrau'r cyfnod goruchwylio yn ddigonol mewn perthynas â materion DV; mewn un allan o 20 o achosion adolygwyd risg o niwed bob pedwar mis, ac mewn dim ond dau allan o 15 o achosion lle bu digwyddiad arwyddocaol a allai beri pryder.
- Mewn 12 allan o 20 o achosion nid oedd unedau DV yr heddlu wedi cael cais am wybodaeth. Mewn pedwar yn unig allan o 15 o achosion perthnasol yr oedd wedi cysylltu â gwasanaethau cymdeithasol i gael gwybodaeth i gyfrannu at asesiad risg o niwed.
- Lle'r oedd staff cyswllt dioddefwyr yn ymwneud ag achos cawsant gais am wybodaeth at bwrpasau asesu mewn hanner yn unig o'r achosion perthnasol.

- Mewn dau yn unig allan o 15 achosion perthnasol yr oedd cynllun risg o niwed boddhaol wedi cael ei baratoi o fewn pum diwrnod ar ôl rhyddhau'r troseddwr/ cychwyn y rhaglen.
- Mewn cynlluniau rheoli risg ar gyfer achosion risg uchel a risg uchel iawn aethpwyd i'r afael yn foddhaol â DV mewn dau allan o 13 o achosion a chynhwyswyd cynllun diogelwch dioddefwyr mewn un yn unig o'r 13 achosion perthnasol.
- Mewn pedwar allan o 13 achosion perthnasol nid oedd gorchmynion/amodau/gofynion ychwanegol priodol wedi cael eu hargymell na'u hymgorffori mewn gorchmynion/trwyddedau.

B2: Asesu'r tebygolrwydd o aildroseddu:	Sgôr
Mae ffactorau troseddegol cysylltiedig â DV a'r tebygolrwydd o aildroseddu'n cael eu nodi a'u hasesu gan ddefnyddio arfau cymeradwy, a chan dynnu ar yr holl wybodaeth sydd ar gael ac asesiadau blaenorol.	17%

Meysydd ar gyfer gwella:

- Mewn dau yn unig allan o 21 o achosion y rhoddwyd digon o sylw i'r tebygolrwydd o aildroseddu a ffactorau troseddegol cysylltiedig â DV. Roedd hyn yn siomedig o gofio'r cysylltiadau cryf rhwng, er enghraifft, camddefnyddio alcohol a DV.
- Canfuwyd hanes cyflawnwr DV digonol mewn pedwar yn unig allan o 21 o achosion ac mewn dim ond pedwar allan o 19 o achosion y cymerwyd hyn i ystyriaeth yn ddigonol wrth oruchwylio.

B3: Rheoli achosion:	Sgôr
Mae'r achos yn cael ei reoli'n effeithiol. Mae cynlluniau goruchwylio/asesiadau CPO yn ymgorffori ymyriadau cydlynus a dilynol priodol gyda'r nod o leihau risg cysylltiedig â DV a aseswyd, mynd i'r afael ag anghenion troseddegol cysylltiedig a chaniatáu ar gyfer materion dioddefwyr/amrywiaeth perthnasol.	26%

Meysydd ar gyfer gwella:

- Roedd ymyriadau priodol oedd yn gymesur â chynlluniau rheoli risg wedi cael eu rhoi yn eu lle mewn chwech allan o 20 o achosion yn unig. Oherwydd nad oedd rhaglen achrededig roedd hi'n anodd i'r ardal ennill sgoriau uchel mewn perthynas ag ymyriadau wedi eu cynllunio. Gwnaed dau fid i ddenu arian i gychwyn rhaglen i gyflawnwyr. Methu oedd hanes y ddau. Roedd hi'n syndod bod yr ardal wedi terfynu cytundeb gyda'r NSPCC, oedd yn rhedeg rhaglen i gyflawnwyr yng Nghaerdydd, yn enwedig gan fod ardal gyfagos yn dal i wneud defnydd o'r gwasanaeth hwn.
- Pennwyd trefniadau cyswllt mewn cynlluniau goruchwylio mewn dim ond un o'r achosion yn y sampl. Roedd rhy ychydig o wybodaeth am fanylion ac amledd cyswllt.
- Cymerwyd materion diogelwch troseddwyr i ystyriaeth wrth gynllunio ymyriadau mewn pedwar yn unig allan o 16 o achosion, gyda materion amrywiaeth yn gwneud yn well, mewn pedwar allan o naw o achosion perthnasol.

B4: Dogfennau:	Sgôr
Mae'r holl ddogfennau perthnasol ar gael, wedi eu cwblhau'n foddhaol a'u storio'n briodol.	20%

Meysydd ar gyfer gwella:

- Mewn 17 allan o 21 o achosion nid oedd ffeiliau wedi eu trefnu'n dda nac yn gyflawn.
- Nid oedd gwaith cofnodi achosion yn glir ac yn ddigonol mewn naw allan o 21 o achosion.
- Roedd cofnod digonol o gynlluniau ac ymyriadau cysylltiedig â DV a gyflenwyd gan staff eraill neu ddarparwyr mewn pedwar allan o 12 o achosion.
- Roedd y gallu i storio gwybodaeth gyfrinachol yn dibynnu'n rhannol ar fformat y ffeil. Dim ond mewn un allan o 17 o achosion yr oedd hyn yn ddigonol, gan ddangos nad oedd y ffeil yn caniatáu ar gyfer cadw gwybodaeth gyfrinachol a thrydydd parti'n ddiogel, er bod yr un achos ardderchog yn dangos bod hyn y bosibl.

ADRAN C
ANSAWDD YMYRIADAU DV

C1: Rheoli presenoldeb a gorfodi:	Sgôr
Mae cyswllt gyda'r troseddwr a gwaith gorfodi'r gorchymyn/trwydded yn cael ei gynllunio a'u gweithredu i gwrdd â gofynion rheoli risg DV.	41%

Meysydd ar gyfer gwella:

- Cynigiwyd apwyntiadau yn unol â safonau cenedlaethol mewn wyth allan o 21 achos.
- Mewn 11 allan o 21 achos roedd natur ac amledd y cyswllt yn cymryd materion cysylltiedig â DV i ystyriaeth.
- Roedd gwaith cydymffurfiad a gorfodi yn cymryd materion cysylltiedig â DV i ystyriaeth mewn pump allan o naw achos perthnasol.
- Cymerwyd materion amddiffyn dioddefwyr i ystyriaeth wrth sicrhau cydymffurfiad mewn chwech allan o 11 o achosion perthnasol.
- Mewn un achos, lle'r oedd gorchymyn atal neu waharddeb yn ei le, ni throsglwyddwyd gwybodaeth bod y troseddwr wedi torri hwn yn brydlon i'r awdurdod perthnasol.
- Gwnaed dyfarniadau priodol ynghylch derbynioldeb methiannau mewn deg allan o 17 o achosion perthnasol.
- Lle'r oedd angen gweithredu tor-amod/adalw deliwyd ag un yn unig o'r chwe throseddwr o fewn yr amserlen safonol genedlaethol.

C2: Darparu goruchwyliaeth briodol:	Sgôr
Mae ymyriadau'n cael eu darparu a'u cyd-gysylltu i sichrau bod amcanion goruchwylio a lleihau risg yn cale eu cyflawni.	45%

Meysydd ar gyfer gwella:

- Roedd amseroldeb a chynnwys adolygiadau'n siomedig, gyda hanner yr achosion wedi methu â chwrdd â'r safon.
- Nid oedd ymyriadau DV priodol wedi cael eu cynnal yn ddigonol mewn 13 allan o 20 achos. Heb raglen achrededig roedd ymarferwyr yn cael trafferth i ddarparu ymyriadau effeithiol.

- Mewn dim ond hanner yr achosion perthnasol yr oedd ymarferwyr wedi ysgogi'r troseddwr ac wedi atgyfnerthu gwaith eraill mewn perthynas ag ymyriadau DV.
- Nid oedd digon o gyswllt gyda'r rhai oedd yn darparu'r ymyriadau i droseddwyr mewn ychydig dros hanner yr achosion perthnasol yn unig. Mewn 12 achos allan o 20 nid oedd materion yn ymwneud â dioddefwyr yn cael eu trin yn iawn wrth i ymyriadau gael eu cyflenwi, ac mewn 11 allan o 20 o achosion roedd y gwaith a wnaed i godi ymwybyddiaeth y troseddwr o effaith eu troseddu ar y dioddefwr yn annigonol.
- Mewn dim ond hanner yr achosion y deliwyd â hwy o dan MAPPA, roedd adolygiadau cynlluniau goruchwylio yn integreiddio materion o gynlluniau rheoli risg aml-asiantaeth.
- Lle'r oedd gwybodaeth newydd neu gynnydd yn y risg o niwed yn rhoi achos pryder, dim ond mewn pump allano 17 achosion perthnasol yr ymgorfforwyd ymyriadau cyfyngol neu adeiladol ychwanegol i'r gorchymyn goruchwylio.
- Mewn 11 allan o 21 o achosion nid oedd y dull o gyflenwi'r ymyriadau yn cymryd amcanion lleihau niwed DV i ystyriaeth.
- Roedd y defnydd o adnoddau arbenigol yn ddigonol mewn pedwar yn unig o'r deg o achosion a chafodd ei fonitro a'i adolygu mewn hanner yn unig o'r achosion.

C3: Cwrdd ag anghenion amrywiaeth:	Sgôr
Mae'r gwaith o gyflenwi gwasanaethau cysylltiedig â DV yn cwrdd ag anghenion amrywiaeth ac mae trefniadau cymorth priodol yn eu lle.	44%

Maes ar gyfer gwella:

- Roedd ymyriadau mewn llai na hanner o'r achosion perthnasol yn sensitif i faterion amrywiaeth.

C4: Ymatebolrwydd:	Sgôr
Cymerir arddull dysgu troseddwyr, eu cymhelliant a'u gallu i niwed i ystyriaeth yn y cynllun ymyrryd.	24%

Meysydd ar gyfer gwella:

- Mewn saith yn unig allan o 20 o achosion y rhoddwyd ystyriaeth briodol i'r dulliau mwyaf effeithiol i'w defnyddio gyda throseddwyr mewn perthynas â DV.
- Roedd yn siomedig mai dim ond mewn un allan o wyth o achosion yr oedd ansawdd y gwaith cyn rhyddhau yn cwrdd â'r safon.

C5: Rheoli risg o niwed:	Sgôr
Caiff risg o niwed ei reoli'n weithredol mewn cydweithrediad ag eraill.	33%

Meysydd ar gyfer gwella:

- Mewn saith yn unig allan o 21 o achosion y cyflenwyd ymyriadau addas i'r asesiad o risg o niwed, ac mewn 11 allan o 18 o achosion nid oedd newidiadau i'r lefel risg wedi cael eu canfod a'u rheoli'n iawn.
- Roedd yn destun pryder mawr iawn nad oedd yr ymyriadau wedi delio'n ddigonol â risgiau i blant mewn chwech allan o'r 11 o achosion oedd yn ymwneud â risg i blant.

- Lle'r oedd MAPPA yn eu lle'r oedd cynllun rheoli risg da mewn dau yn unig allan o 12 o achosion. Ar gyfer yr achosion risg uchel neu uchel iawn hyn dim ond 100% sy'n dderbyniol.
- Mewn pump yn unig allan o 14 achos risg uchel neu uchel iawn o niwed yr ymwelwyd â'r cartref.
- Roedd hi'n arbennig o siomedig mai dim ond mewn chwech allan o 21 o achosion y rhoddwyd y flaenoriaeth i amddiffyn y dioddefwr.

ADRAN D
ANSAWDD CANLYNIADAU CYCHWYNNOL DV

D1: Cyflenwir ymyriadau gyda'r canlyniadau a ddymunir:	Sgôr
Mae amcanion lleihau niwed DV yn cael eu cyflawni ac mae'r risg o niwed/aildroseddu yn cael ei leihau'n sylweddol.	34%

Cryfderau:

- Roedd troseddwyr wedi mynychu'r cwbl neu bron y cwbl o apwyntiadau cysylltiedig â DV mewn wyth allan o ddeg o achosion.
- Roedd pump allan o chwech o droseddwyr oedd o dan amodau cysylltiedig â DV wedi eu cadw.

Meysydd ar gyfer gwella:

- Roedd pump allan o 21 o droseddwyr wedi ymddangos gerbron y llys ers y cychwyn, er bod achosion eraill wedi bod o ymddygiad cysylltiedig â DV nad oedd yn cyfrif fel trosedd yn llygad y gyfraith.
- Mewn tri achos yn unig yr oedd y dioddefwr wedi cadarnhau na fu dim achos pellach o ymddygiad cysylltiedig â DV ac mewn chwe achos yn unig roedd yr heddlu wedi cadarnhau hyn. Mewn sawl achos nid oedd digon o dystiolaeth i farnu cynnydd neu roedd yn dibynnu'n unig ar adborth gan y troseddwr.

D3: Mae canlyniadau ymyriadau'n cael eu hasesu a'u hadolygu gan ddefnyddio'r data sydd ar gael:	Asesiad
Defnyddir data canlyniadau i werthuso effeithiolrwydd ac fel sail i bolisi ac arfer yn y dyfodol.	HEB EI GYFLAWNI

Maes ar gyfer gwella:

- Nid oedd yr ardal yn casglu data canlyniad ar achosion DV yn gyffredinol.

SWYDDOGAETH AEM PRAWF

Arolygiaeth annibynnol yw AEM Prawf, a sefydlwyd yn wreiddiol yn 1936 ac a gafodd awdurdod statudol yn Neddf Cyfiawnder Troseddol 1991. Yn Neddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys 2000 newidiwyd enw AEM Prawf i 'Gyfarwyddiaeth Ei Mawrhydi y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ar gyfer Cymru a Lloegr.' Mae AEM Prawf yn derbyn arian gan y Swyddfa Gartref ac yn adrodd yn uniongyrchol i'r Ysgrifennydd Cartref.

Nodau'r Swyddfa Gartref

Mae AEM Prawf yn cyfrannu'n bennaf at gyflawni nodau'r Swyddfa Gartref i:

- sicrhau bod cyfiawnder yn cael ei weinyddu'n effeithiol, gan osgoi oedi diangen, trwy ymchwilio, datgelu, erlyn a gweithdrefnau llys effeithlon. Lleihau'r perygl a'r bygythiad i dystion a chysylltu â dioddefwyr a'u cefnogi
- Traddodi dedfrydau caethiwed a chymunedol effeithiol er mwyn lleihau aildroseddu ac amddiffyn y cyhoedd, trwy'r carchar a'r gwasanaeth prawf, mewn partneriaeth â Bwrdd Cyfiawnder yr Ifanc.

Swyddogaeth

- Adrodd i'r Ysgrifennydd Cartref i ba raddau y mae Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ar gyfer Cymru a Lloegr yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol, gan gyfrannau at gyflawni nodau'r Swyddfa Gartref a Chyfiawnder Troseddol a chwrdd â thargedau perfformiad ac effeithlonrwydd yn ôl y gofyn.
- Dangos bod arolygiadau yn cyfrannu at berfformiad gwell yn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol.
- Cyfrannu at bolisïau cadarn a chyflawni gwasanaeth yn effeithiol trwy ddarparu cyngor lledaenu arfer da, ar sail canfyddiadau arolygiadau, i Weinidogion, y Swyddfa Gartref a staff y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Byrddau/ardaloedd prawf.
- Hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a materion amrywiaeth ehangach yn weithgar yn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol.
- Hyrwyddo effeithiolrwydd cyffredinol y system cyfiawnder troseddol.

Côd Ymarfer

Nod AEM Prawf yw cyflawni ei bwrpas trwy:

- gyflawni ei waith yn onest mewn dull proffesiynol, diduedd a chwrtais
- ymgynghori â budd-ddeiliaid wrth gynllunio a chynnal arolygiadau ac edrych ar adroddiadau
- ffurfio dyfarniadau arolygu annibynnol ar sail tystiolaeth
- adrodd a chyhoeddi canfyddiadau arolygu yn amserol ac argymell gwelliannau
- hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a materion amrywiaeth ehangach ym mhob agwedd ar ei waith, gan gynnwys o fewn ei arferion cyflogaeth a'i brosesau sefydliadol ei hun
- datblygu dulliau gweithredu ar y cyd gydag arolygiaethau a chyrff archwilio eraill i sicrhau dull cydlynus o edrych ar y system cyfiawnder troseddol
- gweithio i leihau baich arolygu ar y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Corff cyhoeddus yw'r arolygiaeth. Dylai unrhyw un sy'n dymuno rhoi sylwadau ar arolygiad, adroddiad neu unrhyw fater arall sy'n dod o fewn ei chylch gorchwyl ysgrifennu at:

Prif Arolygydd Prawf EM,
2nd Floor, Ashley House
2 Monck Street
London SW1P 2BQ